Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

# Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG: Tachwedd a Ragfyr 2020

Adroddiad yn crynhoi data am weithgarwch a pherfformiad yn y GIG yng Nghymru ar gyfer Tachwedd a Ragfyr 2020.

Cyhoeddwyd gyntaf: 21 Ionawr 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 21 Ionawr 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

1. Prif bwyntiau

2. Gofal heb ei drefnu

3. Gofal wedi'i drefnu

4. Newidiadau i ddata perfformiad y GIG yn y misoedd i ddod

5. Gwybodaeth allweddol am ansawdd

6. Manylion cyswllt

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn rhoi crynodeb o ddata perfformiad a gweithgarwch GIG Cymru.

Darperir data newydd ar alwadau i'r gwasanaeth ambiwlans, nifer y bobl sy'n mynd i adrannau brys a'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty o adrannau achosion brys mawr ar gyfer mis Rhagfyr 2020.

Darperir data newydd am fis Tachwedd 2020 yn ymwneud ag atgyfeiriadau ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol, amseroedd aros am wasanaethau diagnostig a therapi, amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth (gan gynnwys llwybrau cleifion caeedig a llwybrau cleifion sy'n disgwyl i ddechrau triniaeth) a chleifion sy'n dechrau triniaeth canser.

Ceir rhagor o fanylion ar y data ym mhob maes pwnc ar ein gwefan **StatsCymru** ac ar ein **dangosfwrdd rhyngweithiol**.

Sylwch fod y data yn y datganiad ystadegol hwn yn cwmpasu cyfnod y pandemig coronafeirws (COVID-19), sydd wedi effeithio ar y ffordd y mae rhai gwasanaethau'r GIG yn cael eu cynnig a dewisiadau pobl o ran gwasanaethau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

iechyd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran gwybodaeth am ansawdd allweddol a chafodd sylwadau manylach am effaith y pandemig eu cynnwys yn **natganiad mis Tachwedd**.

Sylwch mai dyma fydd y cyhoeddiad olaf a fydd yn adrodd ar ddata gwasanaethau canser a gesglir yn y fformat presennol. Bydd y targedau a'r casglu data cysylltiedig ar gyfer cleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser sy'n dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf, boed hynny drwy'r llwybrau brys ai peidio, yn dod i ben o hyn ymlaen. O fis Chwefror 2021 ymlaen, bydd cyhoeddi data canser yn canolbwyntio ar yr un llwybr canser yn unig. Edrychwch ar yr adran gwasanaethau canser i gael rhagor o wybodaeth am y newidiadau hyn.

## Cynlluniau i'r dyfodol

Yn ystod pandemig COVID-19, newidiodd y gofynion sicrwydd ac atebolrwydd ar gyfer byrddau iechyd lleol i adlewyrchu'r anghenion diogelwch dybryd. Bydd y data a gyhoeddir yn y datganiad hwn yn parhau i gael eu defnyddio ar gyfer gwybodaeth reoli ac i roi sicrwydd yn erbyn cyflawni cynlluniau chwarterol y bwrdd iechyd lleol.

Rydym wedi cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar y **newidiadau arfaethedig i ystadegau perfformiad** yn y cyhoeddiad hwn.

# 1. Prif bwyntiau

- Cynyddodd cyfanswm cyfartalog dyddiol y galwadau a'r galwadau mwyaf difrifol (galwadau coch) i'r gwasanaeth ambiwlans ym mis Rhagfyr 2020 o'i gymharu â'r mis blaenorol, ond mae'r naill a'r llall yn is nag ym mis Rhagfyr 2019.
- Gostyngodd canran y galwadau coch a dderbyniodd ymateb o fewn 8 munud ym mis Rhagfyr 2020 ac ni chyrhaeddwyd y targed o 65% am y pumed mis yn olynol.
- Gostyngodd nifer y bobl sy'n mynychu adrannau brys bob dydd ar gyfartaledd o'r mis blaenorol, ac roedd yn is na'r un mis y llynedd. O'i gymharu â'r mis diwethaf, roedd canran y cleifion a oedd wedi treulio llai na

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

4 awr mewn adrannau brys wedi gostwng ac roedd nifer y cleifion a oedd wedi treulio mwy na 12 awr mewn adrannau brys wedi cynyddu.

- Mae COVID-19 wedi cael effaith glir ar nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am wasanaethau diagnostig a therapi, ac mae nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am wasanaethau diagnostig wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau'r pandemig. I'r gwrthwyneb, mae nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am wasanaethau therapi yn sylweddol is nag yr oeddent cyn y pandemig.
- Mae'r cynnydd yn nifer y llwybrau sy'n aros am wasanaethau diagnostig yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag effaith COVID-19. **Cafodd yr holl apwyntiadau cleifion allanol nad oeddent yn rhai brys eu hatal ym mis Mawrth** ac mae mesurau ychwanegol i atal heintiau wedi cael eu rhoi ar waith dros y misoedd diwethaf. Mae canran uchel o gleifion yn aros yn hwy na'r amser targed o hyd, ac mae'r perfformiad wedi disgyn ychydig y mis hwn.
- Mae'r nifer is o lwybrau cleifion sy'n aros am therapïau yn deillio o'r ffaith fod rhai gwasanaethau'n cael eu darparu'n rhithiol. Er bod canran uchel o gleifion yn aros yn hwy na'r amser targed, mae'r perfformiad wedi gwella y mis hwn.
- Gwelwyd cynnydd cyson bob mis ers mis Mai 2020 yng nghyfanswm nifer y llwybrau cleifion a gyfeiriwyd i gael triniaeth ond a oedd yn aros i ddechrau. Mae COVID-19 wedi cael effaith glir ar berfformiad yn erbyn y ddau darged atgyfeirio am driniaeth. O'i gymharu â'r mis diwethaf, mae canran y cleifion sy'n disgwyl llai na 26 wythnos wedi cynyddu ond mae nifer y cleifion sy'n disgwyl mwy na 36 wythnos wedi cynyddu hefyd. Mae'n werth nodi bod yr amser aros cyfartalog (canolrifol) ar gyfer triniaeth wedi disgyn o'i gymharu â'r mis diwethaf am y tro cyntaf ers dechrau'r pandemig.
- Mae ystadegau arbrofol yn dangos bod nifer y cleifion sy'n ymuno â'r un llwybr canser a amheuir o fod â chanser o'r newydd, a'r ganran sy'n cael eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod o gael eu hamau o fod â chanser (heb gael eu hatal) ill dau fymryn yn is na'r mis diwethaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# 2. Gofal heb ei drefnu

## 2.1 Galwadau brys i'r gwasanaeth ambiwlans

### Gweithgaredd

**Siart 1: Nifer cyfartalog y galwadau ambiwlans brys bob dydd, yn ôl math o alwad, Tachwedd 2015 i Dachwedd 2020**




Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Galwadau ambiwlans brys ac ymatebion i alwadau coch, fesul bwrdd iechyd lleol a mis ar StatsCymru**

Nodyn: Mae'n ymddangos bod addasu'r arferion trin galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at wahaniaethau yn nifer y galwadau coch. Felly, nid yw'n bosibl cymharu niferoedd digwyddiadau coch cyn hyn

Mae cyfanswm nifer y galwadau brys i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi bod yn codi'n raddol yn y tymor hir. Ers cychwyn casglu data misol ym mis Ebrill 2006, mae'r galwadau dyddiol ar gyfartaledd wedi codi o lai na 1,000 y diwrnod i rhwng 1,200 a 1,450 y diwrnod.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am hawlfraint.

Yn ystod misoedd cynnar pandemig COVID-19, bu gostyngiad yn nifer y galwadau i'r gwasanaeth ambiwlans; fodd bynnag, mae'r gweithgarwch wedi dychwelyd i lefel debyg ers hynny i'r cyfnod cyn COVID-19.

Ym mis Rhagfyr 2020, gwnaethpwyd 39,388 o alwadau brys i'r gwasanaeth ambiwlans. Mae hyn yn gyfartaledd o 1,271 o alwadau y dydd, 37 (neu 3.0%) yn llai na'r mis blaenorol, a 170 (neu 11.8%) yn llai na'r un mis y llynedd.

Mae galwadau i'r gwasanaeth ambiwlans yn cael eu categoreiddio fel galwadau coch, ambr neu wyrdd yn dibynnu ar pa mor frys yw'r alwad. Roedd canran yr holl alwadau lle'r oedd bywyd yn y fantol (galwadau coch) yn 7.2%, i fyny o 6.9% ym mis Tachwedd 2020. Roedd hyn yn gyfartal â'r lefel uchaf a welwyd o'r blaen ers cyflwyno'r system newydd ym mis Hydref 2015.

## Perfformiad

### Targed


- Ymateb i 65% o alwadau coch (mae rhywun mewn perygl o farw'n gyflym, fel ataliad ar y galon) o fewn 8 munud.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 2: Canran yr ymatebion brys sy'n cyrraedd y lleoliad o fewn 8 munud i ateb galwad goch, Tachwedd 2015 i Dachwedd 2020




Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Ymatebion brys: perfformiad fesul munud i alwadau coch, fesul bwrdd iechyd lleol a mis ar StatsCymru**

Nodyn: Mae'n ymddangos bod addasu'r arferion trin galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at wahaniaethau yn nifer y galwadau coch. Felly, nid yw'n deg cymharu'r perfformiad ar ôl y dyddiad hwn â pherfformiad cyn y dyddiad hwn.

Tra mae pandemig COVID-19 yn parhau, mae'n rhaid i dimau ymateb i argyfwng gyflawni camau ychwanegol, gan gynnwys gwisgo cyfarpar diogelu personol ychwanegol, ac mae hynny'n debygol o effeithio ar ba mor gyflym y gallant ymateb i alwad. Mae COVID-19 hefyd wedi arwain at gynnydd mawr mewn lefelau salwch ymysg staff y gwasanaeth ambiwlans, a allai hefyd effeithio ar berfformiad yn erbyn y targed.

Mae'r perfformiad yn erbyn y targed galwadau coch wedi bod yn gymysg dros gyfnod COVID-19. Llwyddwyd i gyrraedd y targed ar gyfer pob mis rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2020; fodd bynnag, mae'r perfformiad wedi dirywio ers hynny ac yn gyffredinol maent wedi bod yn is na'r misoedd cyfatebol y llynedd.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyrhaeddwyd 53.7% o’r ymatebion brys i alwadau (coch) lle mae bywyd yn y fantol o fewn 8 munud. Dyma’r pumed mis yn olynol lle na chyrhaeddwyd y targed o 65% ac mae wedi gostwng o 59.5% ym mis Tachwedd 2020, ac o 62.0% ym mis Rhagfyr 2019.

Mae dadansoddi’r amseroedd ymateb cyfartalog yn rhoi cyd-destun ehangach i ddata perfformiad. Mae canolrif yr amser aros yn amrywio o fis i fis, ond dros y 5 mlynedd diwethaf mae wedi tueddu i amrywio rhwng 4 munud 30 eiliad a 6 munud i alwadau coch. Fodd bynnag, mae wedi bod dros 6 munud ym mhob mis ers mis Awst 2020. Ym mis Rhagfyr 2020 roedd yr amser ymateb canolrifol i alwadau coch yn 7 munud 28 eiliad. Mae hyn 32 eiliad yn arafach nag ym mis Tachwedd 2020 a 51 eiliad yn arafach na mis Rhagfyr 2019.

Mae’r rhan fwyaf o alwadau i’r gwasanaeth ambiwlans yn cael eu categoreiddio fel galwadau ambr. Nid oes targed yn gysylltiedig ag amseroedd ymateb ar gyfer galwadau ambr ond mae gwybodaeth gyd-destunol yn dangos mai’r amser aros canolrif ar gyfer galwadau ambr oedd 63 munud a 13 eiliad ym mis Rhagfyr 2020. Mae hyn 16 munud a 34 eiliad yn arafach nag ym mis Tachwedd 2020 a 15 munud ac 10 eiliad yn arafach nag ym mis Rhagfyr 2019.

## 2.2 Presenoldeb mewn adrannau brys a derbyniadau i’r ysbyty

Yn y datganiad ystadegol hwn, mae ‘adran achosion brys’ yn cyfeirio at y niferoedd sy’n ymweld ac yn cael eu derbyn mewn adrannau damweiniau ac achosion brys mawr, adrannau damweiniau ac achosion brys eraill ac unedau mân anafiadau, oni nodir yn wahanol.

Ers 5 Awst 2020, mae model newydd (gwasanaeth CAV24/7) wedi bod ar waith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro, i gael rhagor o wybodaeth a sut gallai hyn effeithio ar y data, ewch i’r **adran nodiadau**.


Yn y misoedd i ddod, mae **newidiadau yn yr arfaeth i ehangu cwmpas ystadegau perfformiad adrannau achosion brys**. Mae mesurau newydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr **Uned Comisiynu Gydweithredol Genedlaethol**, ar ffurf gwybodaeth reoli. Bydd y mesurau newydd yn cynnwys mesur yr amser

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

rhwng y claf yn cyrraedd a chael ei frysbennu, yr amser rhwng y claf yn cyrraedd a chael cysylltiad â gwneuthurwr penderfyniadau clinigol, a dadansoddiad o ble fydd y claf yn mynd ar ôl gadael yr adran achosion brys. Caiff y rhain eu diweddaru bob mis ar yr un diwrnod â'r cyhoeddiad Ystadegau Gwladol hwn.

## Gweithgaredd

**Siart 3: Nifer y bobl a fu'n bresennol yn adrannau achosion brys GIG Cymru, a derbyniadau i ysbytai o ganlyniad i fod yn bresennol mewn adrannau achosion brys mawr, Rhagfyr 2015 i Ragfyr 2020**




Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

### Nifer yr ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys GIG Cymru yn ôl band oedran, rhyw a safle ar StatsCymru

Nodyn: Mae Siart 3 yn dangos faint o bobl a aeth i adrannau achosion brys mawr ac i unedau mân anafiadau, a nifer y derbyniadau i'r ysbyty ar ôl mynd i adrannau achosion brys mawr yn unig. Nid yw derbyniadau i ysbyty o unedau mân anafiadau yn cael eu cofnodi'n gyson ledled Cymru ac felly nid ydynt yn cael eu cyfrif yn y siart hwn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Er bod presenoldeb mewn adrannau brys yn amrywio o fis i fis, mae presenoldeb yn uwch ar y cyfan ym misoedd yr haf na’r gaeaf.

Roedd llai o bobl wedi ymweld â holl adrannau brys GIG Cymru yn ystod misoedd cynnar pandemig COVID-19. Ym mis Ebrill 2020, gwelwyd y nifer lleiaf o ymweliadau ag adrannau brys ers dechrau casglu cofnodion yn 2012. Dros fisoedd haf 2020 roedd nifer yr ymweliadau wedi cynyddu ac erbyn mis Awst roeddent bron wedi cyrraedd lefelau cyn COVID-19, cyn disgyn ym mis Medi a disgyn ymhellach hyd at fis Rhagfyr.

Mae data mis Rhagfyr yn dangos bod 59,050 o ymweliadau â holl adrannau brys GIG Cymru. Roedd hyn 7.9% yn is na’r mis blaenorol (5,079 yn llai o ymweliadau) a 30.9% yn is na’r un mis y llynedd (26,427 yn llai o ymweliadau).

Ar gyfartaledd, roedd 1,905 yn mynychu adrannau brys bob dydd ym mis Rhagfyr. Mae hyn 233 yn llai o ymweliadau ar gyfartaledd bob dydd nag ym mis Tachwedd 2020 ac 852 yn llai bob dydd ar gyfartaledd nag ym mis Rhagfyr 2019.

Cyfanswm nifer yr ymweliadau ag adrannau achosion brys yn ystod y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2020 yw 807,824. Mae hyn 24.6% yn is na’r flwyddyn flaenorol (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2019) a 17.7% yn is na’r cyfnod 12 mis cyfatebol 5 mlynedd yn ôl (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2015). Mae effaith pandemig COVID-19 hefyd yn effeithio ar gymariaethau blynyddol.

Mae’r duedd o ran derbyniadau i’r ysbyty ar ôl mynd i adrannau achosion brys mawr yn debyg i’r duedd ar gyfer presenoldeb ym mhob adran achosion brys ers y pandemig.

Cyn pandemig COVID-19, roedd tua 24% o’r holl ymweliadau ag adrannau achosion brys mawr wedi golygu bod y claf wedi cael ei dderbyn i’r ysbyty. Yn ystod misoedd cyntaf y pandemig, cynyddodd y ganran hon, gan gyrraedd uchafbwynt o 30.8% ym mis Ebrill 2020. Dros haf 2020 roedd y duedd ar i lawr ond ers hynny mae wedi codi eto i 27.1% yn y mis diweddaraf (Rhagfyr 2020).

Ym mis Rhagfyr, derbyniwyd 12,765 o gleifion i’r un ysbyty neu i ysbyty

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwahanol ar ôl bod mewn adran achosion brys fawr. Mae hyn 6.4% yn is (871 yn llai o dderbyniadau) na'r mis blaenorol a 27.7% yn is (4,880 yn llai o dderbyniadau) na'r mis cyfatebol flwyddyn yn ôl.

## Perfformiad

### Targedau


- Dylai 95% o gleifion newydd dreulio llai na 4 awr mewn adrannau achosion brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.
- Ni ddylai'r un claf orfod aros mwy na 12 awr mewn adrannau achosion brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Siart 4: Canran y cleifion sy’n cael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o fewn 4 awr mewn adrannau achosion brys y GIG, Rhagfyr 2015 I Ragfyr 2020**




Ffynhonnell: Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)

### Perfformiad yn erbyn targed amseroedd aros 4 awr fesul ysbyty ar StatsCymru

Sylwch nad yw hwn yn gyfrif unigryw o gleifion; bydd yr un claf yn cael ei gyfrif sawl gwaith os bydd yn mynychu sawl gwaith.

Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae canran y cleifion sy’n cael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o fewn 4 awr o gyrraedd adran achosion brys wedi amrywio o fis i fis ond maent wedi tueddu i fod yn agos at 80%. O ganol 2019 ymlaen, roedd y ganran hon wedi gostwng y rhan fwyaf o fisoedd, gan gyrraedd y pwynt isaf ym mis Rhagfyr 2019, cyn dechrau cynyddu ym misoedd cynnar 2020 cyn pandemig COVID-19.

Yn ystod misoedd cynnar y pandemig, cafodd canran uwch o gleifion eu derbyn,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o fewn yr amser targed o 4 awr. Cafwyd y ganran uchaf ym mis Mai 2020 lle treuliodd 84.4% o gleifion lai na'r amser targed mewn adrannau achosion brys, y ganran uchaf ers mis Medi 2017.

Mae data'r mis diwethaf yn dangos fod 70.1% o gleifion (41,422 o gleifion) wedi treulio llai na 4 awr ym mhob adran gofal brys, o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. Mae hyn yn ostyngiad o 4.9 pwynt canran ers mis Tachwedd 2020 a gostyngiad o 1.2 pwynt canran o fis Rhagfyr 2019. Nid yw'r targed o 95% yn cael ei gyflawni o hyd.

Er nad yw'r targed perfformiad 4 awr wedi cael ei gyflawni ers cyflwyno'r targed, dengys gwybodaeth gyd-destunol fod yr amser canolrif y mae cleifion yn ei dreulio mewn adrannau brys wedi aros yn weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf a'i fod yn agos at 2 awr a 30 munud drwy gydol 2019.

Yn ystod rhan gyntaf y pandemig roedd canolrif yr amser aros wedi gostwng, i 2 awr ym mis Ebrill 2020, ond ers hynny mae'r canolrif wedi dychwelyd i lefel debyg i'r hyn a welwyd cyn y pandemig.

Ym mis Rhagfyr 2020, canolrif yr amser aros oedd 2 awr a 44 munud, i fyny o 2 awr 30 munud ym mis Tachwedd 2020 ond yr un amser ag ym mis Rhagfyr 2019.


Mae canolrif yr amser a dreulir mewn adran achosion brys yn amrywio yn ôl oed. Yn gyffredinol, mae plant yn treulio rhwng 1 awr a 30 munud a 2 awr mewn adran achosion brys ar gyfartaledd, ac mae cleifion hŷn (85 oed neu hŷn) fel arfer yn treulio rhwng 3 awr a 30 munud a 5 awr mewn adran achosion brys ar gyfartaledd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Siart 5: Nifer y cleifion sy’n aros mwy na 12 awr i gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau i adrannau achosion brys y GIG, Rhagfyr 2015 i Ragfyr 2020




Ffynhonnell: Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)

**Perfformiad yn erbyn targed amseroedd aros 12 awr fesul ysbyty ar StatsCymru**

Sylwch nad yw hwn yn gyfrif unigryw o gleifion; bydd yr un claf yn cael ei gyfrif sawl gwaith os bydd yn mynychu sawl gwaith.

Mae nifer y cleifion sy’n aros mwy na 12 awr i gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau ar ôl cyrraedd un o adrannau achosion brys y GIG yn amrywio o fis i fis ond maent wedi bod ar gynnydd yn gyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn y cyfnod cyn y pandemig ym mis Ionawr 2020, roedd ychydig o dan 7,000 o gleifion wedi aros am fwy na 12 awr, y nifer uchaf ers dechrau cofnodi hyn yn 2012.

Yn ystod misoedd cynnar pandemig COVID-19, cafwyd gostyngiad sylweddol yn y nifer a oedd yn aros dros 12 awr. Ym mis Ebrill 2020, roedd 547 o gleifion wedi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gorfod aros am fwy na 12 awr, y nifer isaf ers 2013. Ers y pwynt isaf hwnnw, mae'r nifer sy'n aros mwy na 12 awr wedi codi bob mis ond mae wedi bod yn is na'r misoedd cyfatebol yn 2019.


Yn y mis diweddaraf, treuliodd 6,386 o gleifion 12 awr neu ragor mewn adran gofal brys, o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. Mae hyn 1,593 o gleifion (33.2%) yn fwy na mis Tachwedd 2020, ond yn 329 (4.9%) yn llai o gleifion na mis Rhagfyr 2019.

# 3. Gofal wedi'i drefnu

## 3.1 Atgyfeiriadau cleifion allanol

### Gweithgaredd

**Siart 6: Nifer cyfartalog yr atgyfeiriadau dyddiol ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol, Tachwedd 2015 i Dachwedd 2020**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Atgyfeiriadau cleifion allanol ar StatsCymru

Roedd gostyngiad mawr yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol ym mis Mawrth 2020 yn ystod wythnosau cyntaf pandemig COVID-19. Gwelwyd cynnydd mewn gweithgarwch yn y misoedd ers hynny, ond mae'r atgyfeiriadau ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol yn dal yn is na'r lefelau cyn pandemig COVID-19.

Ar gyfartaledd, roedd 2,926 atgyfeiriadau dyddiol ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol ym mis Tachwedd 2020. Mae hyn yn golygu cynnydd o 0.1% (3 yn fwy o atgyfeiriadau bob dydd ar gyfartaledd) o'i gymharu â mis Hydref 2020 ond gostyngiad o 20.6% (758 yn llai o atgyfeiriadau bob dydd ar gyfartaledd) o'i gymharu â mis Tachwedd 2019.

Sylwch na wnaeth bwrdd iechyd Hywel Dda gyflwyno unrhyw ddata ar gyfer codau triniaeth iechyd meddwl ym mis Awst na mis Medi 2020 oherwydd y prosiect Mudo Iechyd Meddwl. Mae rhagor o fanylion am faint yr effaith hon yn y **nodiadau**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## 3.2 Amseroedd Aros Diagnostig a Therapi (DATS)

### Gweithgaredd

**Siart 7: Cyfanswm y llwybrau cleifion sy'n aros am wasanaethau diagnostig a therapi, Tachwedd 2015 i Dachwedd 2020**




Ffynhonnell: Gwasanaethau Diagnostig a Therapi (DATS), Gwasanaeth Gwbodeg GIG Cymru (NWIS)

**Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi yn ôl wythnos ar StatsCymru**

Nodyn: Mae'r pwynt isel ym mis Ebrill 2020 ar gyfer therapïau yn rhannol oherwydd nad oedd Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno data ar gyfer y mis hwn. Er mwyn darparu graddfa debygol yr effaith, ym mis Mawrth roedd 7,519 yn aros am therapïau ac ym mis Mai roedd 9,840 yn aros ym Betsi Cadwaladr.

Mae nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am wasanaethau diagnostig a therapi yn amrywio o fis i fis ac yn aml maent yn is yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cyn pandemig COVID-19, mae'r nifer sy'n aros am brofion diagnostig wedi bod ar gynnydd, tra bod y nifer sy'n aros am

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am hawlfraint.

therapïau wedi bod yn gostwng.

Mae cyfnod COVID-19 wedi cael effaith glir ar nifer y llwybrau cleifion sy’n aros am wasanaethau diagnostig a therapi. Mae nifer y llwybrau cleifion sy’n aros am wasanaethau diagnostig wedi cynyddu’n sylweddol ers dechrau’r pandemig, gyda’r nifer uchaf erioed wedi’i gofnodi ym mis Medi 2020. I’r gwrthwyneb, mae nifer y llwybrau cleifion sy’n aros am wasanaethau therapi yn sylweddol is nag yr oeddent cyn y pandemig. Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd mae gwasanaethau wedi cael eu heffeithio yn ystod y pandemig ar gael yn yr **adran nodiadau**.

Mae’r data diweddaraf ar gyfer mis Tachwedd 2020 yn dangos bod 110,881 o lwybrau cleifion yn aros am brofion diagnostig. Mae hyn yn ostyngiad o 2.2% (2,480 yn llai o lwybrau cleifion yn aros) o’i gymharu â mis Hydref 2020 ond yn gynnydd o 53.3% (38,568 yn fwy o lwybrau cleifion yn aros) o’i gymharu â mis Tachwedd 2019.

Mae’r data diweddaraf ar gyfer mis Tachwedd 2020 yn dangos bod 28,716 o lwybrau cleifion yn aros am therapïau. Mae hyn yn ostyngiad o 5.4% (1,652 yn llai o lwybrau cleifion yn aros) o’i gymharu â mis Hydref 2020 a gostyngiad o 34.6% (15,218 yn llai o lwybrau cleifion yn aros) o’i gymharu â mis Tachwedd 2019.

## Perfformiad

### Targedau


- Yr amser aros hiraf i gael profion diagnostig penodol yw 8 wythnos.
- Yr amser aros hiraf i gael gwasanaethau therapi penodol yw 14 wythnos.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 8: Canran y llwybrau cleifion sy’n aros yn hwy na’r amser targed ar gyfer gwasanaethau diagnostig a therapi yn ôl targed y gwasanaeth, Tachwedd 2015 i Dachwedd 2020




Ffynhonnell: Gwasanaethau Diagnostig a Therapi (DATS), Gwasanaeth Gwbodeg GIG Cymru (NWIS)

**Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi yn ôl wythnos ar StatsCymru**

Nodyn: Ni wnaeth Betsi Cadwaladr gyflwyno data ar gyfer mis Ebrill 2020, felly nid ydynt wedi’u cynnwys yn ffigurau Cymru ar gyfer y mis hwn.

Cyn dechrau pandemig COVID-19, gwelwyd gostyngiad cyffredinol ers mis Ionawr 2014 yn nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros 8 wythnos neu fwy am brofion diagnostig penodol a dim ond canran fach o lwybrau cleifion a oedd wedi aros 14 wythnos neu fwy am wasanaethau therapi.

Fodd bynnag, mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith glir ar nifer y llwybrau cleifion sy’n aros am wasanaethau diagnostig a therapi. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr **adran nodiadau**.

Bu effaith fawr ar berfformiad yn erbyn y ddau darged, gyda’r ganran fwyaf o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

lwybrau'n aros yn hwy na'r amser targed ar gyfer diagnosteg ym mis Mai 2020, ac ym mis Mehefin 2020 ar gyfer gwasanaethau therapi. Ers hynny, mae canran y llwybrau sy'n aros yn hwy na'r amser targed wedi gostwng bob mis ar gyfer y ddau wasanaeth.

Ddiwedd mis Tachwedd 2020, roedd 55,697 o lwybrau cleifion a oedd wedi aros 8 wythnos neu fwy am brofion diagnostig. Mae hyn yn ostyngiad o 4.0% (2,332 yn llai o lwybrau cleifion yn aros) o'i gymharu â mis Hydref 2020, ond roedd pedair gwaith ar ddeg yn fwy o lwybrau cleifion yn aros o'i gymharu â mis Tachwedd 2019.

Ddiwedd mis Tachwedd 2020, roedd 5,770 o lwybrau cleifion a oedd wedi aros mwy na 14 wythnos am wasanaethau therapi. Mae hyn yn ostyngiad o 27.6% (2,203 yn llai o lwybrau cleifion yn aros) o'i gymharu â mis Hydref 2020, ond roedd ugain gwaith yn fwy o lwybrau cleifion yn aros o'i gymharu â mis Tachwedd 2019.

Mae gwybodaeth gyd-destunol yn dangos bod canolrif yr amseroedd aros ar gyfer profion diagnostig, hyd at bandemig COVID-19, yn weddol sefydlog ers 2017 ac ar gyfer gwasanaethau therapi, ers 2018. Roedd yr amseroedd aros canolrifol ar gyfer y ddau wasanaeth ar eu huchaf ym mis Mehefin 2020, ond ers hynny mae'r amseroedd aros canolrifol wedi gostwng.

Ym mis Tachwedd 2020 roedd canolrif yr amser aros ar gyfer profion diagnostig yn 8.1 wythnos, i lawr o 8.4 wythnos ym mis Hydref 2020 ond yn fwy na'r 2.7 wythnos ym mis Tachwedd 2019.

Ym mis Tachwedd 2020 roedd canolrif yr amser aros ar gyfer gwasanaethau therapi yn 4.4 wythnos, i lawr o 5.6 wythnos ym mis Hydref 2020 ond yn fwy na'r 3.6 wythnos ym mis Tachwedd 2019.

## 3.3 Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth

Mae'r ystadegau ar gyfer yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn dangos data misol ar yr amseroedd aros ar gyfer llwybrau agored a chaeedig ar ôl derbyn atgyfeiriad gan feddyg teulu neu ymarferydd meddygol arall i'r ysbyty am

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

driniaeth yn y GIG yng Nghymru. Nid yw data am drigolion o Gymru sydd wedi cael eu trin neu sy'n aros am driniaeth y tu allan i Gymru wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn.

Yn ôl y diffiniad, bydd claf wedi cael ei drin neu bydd ei lwybr wedi'i gau ar ôl iddo gael ymgynghoriad ag arbenigwr mewn ysbyty a bernir nad oes angen triniaeth yn yr ysbyty arno neu pan fydd y driniaeth yn dechrau. Gallai hyn gynnwys:

- cael ei dderbyn i'r ysbyty am lawdriniaeth neu driniaeth;
- dechrau triniaeth ond nad oes angen aros yn yr ysbyty (er enghraifft, meddyginiaeth neu ffisiotherapi);
- dechrau gosod dyfais feddygol megis bresys coes; neu
- dechrau cyfnod o amser y cytunwyd arno i fonitro cyflwr y claf i weld a oes angen triniaeth bellach.

Mae COVID-19 wedi effeithio ar y ffordd mae triniaethau'n cael eu cynnig. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr **adran nodiadau**.

At ddibenion rhyddhau, diffinnir y diwrnod atgyfeirio fel y diwrnod y mae'r ysbyty'n derbyn y llythyr cyfeirio.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gweithgaredd

### Siart 9: Nifer y llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth, Tachwedd 2015 i Dachwedd 2020




Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Gwasanaeth Gwybodeg GIG

**Llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth fesul mis, wythnosau wedi’u grwpio a cham y llwybr ar StatsCymru**

Mae nifer y llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth fel arfer yn amrywio o fis i fis drwy gydol y flwyddyn, a chyn pandemig COVID-19, roedd y niferoedd yn dueddol o fod yn is ym mis Medi a mis Rhagfyr.


Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar gyfanswm nifer y llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth, gyda’r nifer yn cynyddu’n raddol bob mis ers mis Mai 2020.

Roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros i ddechrau triniaeth erbyn diwedd mis Tachwedd 2020 yn 530,371, y nifer uchaf ers casglu data cymaradwy am y tro cyntaf yn 2011. Roedd y nifer a oedd yn aros ym mis Tachwedd 2020 0.8% yn uwch (4,314 yn fwy o lwybrau cleifion yn aros) nag ym mis Hydref 2020 a 14.5% yn uwch (67,113 yn fwy o lwybrau cleifion yn aros) nag ym mis Tachwedd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am hawlfraint.

2019.

Siart 10: Nifer y llwybrau cleifion sydd wedi cau, Tachwedd 2015 i Dachwedd 2020




Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Gwasanaeth Gwybodeg GIG

**Llwybrau cleifion ar gau yn ôl y mis, y bwrdd iechyd lleol a'r wythnosau aros ar StatsCymru**

Sylwch nad oedd modd i fwrdd iechyd Cwm Taf ddarparu data llwybrau oedd wedi cau rhwng mis Medi 2018 a mis Mawrth 2019. Ers newid ffiniau byrddau iechyd ym mis Ebrill 2019, nid yw Cwm Taf Morgannwg wedi cyflwyno data chwaith. Felly, er mwyn caniatáu dadansoddi tueddiadau ar lefel genedlaethol, mae data am lwybrau wedi'u cau yng Nghwm Taf a Chwm Taf Morgannwg wedi'u diystyru.

Mae nifer y llwybrau cleifion sydd wedi cau yn amrywio'n sylweddol o fis i fis ac yn tueddu i fod yn is ym mis Awst a mis Rhagfyr, ond mae'r niferoedd wedi aros yn weddol agos at 80,000 y mis dros y 3 blynedd diwethaf, cyn pandemig COVID-19.

Ar ddechrau'r pandemig, cafwyd gostyngiad sydyn yn nifer y llwybrau a gafodd


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

eu cau, gyda'r nifer lleiaf erioed yn cael eu cau ym mis Ebrill 2020. Ers hynny, mae nifer y llwybrau cleifion sy'n cau bob mis wedi cynyddu ond nid yw wedi dychwelyd i'r lefel cyn COVID-19.

Roedd 55,705 o lwybrau cleifion wedi'u cau yn ystod mis Tachwedd 2020, gostyngiad o 105 (0.2%) ers mis Hydref 2020 a 29,716 (34.8%) yn llai na mis Tachwedd 2019.

Roedd 2,653 o lwybrau cleifion wedi'u cau bob diwrnod gwaith yn ystod mis Tachwedd 2020, cynnydd o 116 (4.6%) ers mis Hydref 2020 ond 1,415 (34.8%) yn llai na mis Tachwedd 2019.

Mae ystyried newidiadau rhwng cyfnodau tebyg o ddeuddeg mis yn lleihau effaith amrywiadau o fis i fis. Roedd 651,654 o lwybrau wedi cau yn ystod y 12 mis hyd at fis Tachwedd 2020, sy'n ostyngiad o 34.5% (343,162 yn llai o lwybrau) o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol.

Mae data ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol i Blant a Phobl Ifanc (SCAMHS) yn cael ei gasglu ar hyn o bryd fel gwybodaeth reoli gan fyrddau iechyd lleol a bydd yn parhau i gael ei chyhoeddi ar **StatsCymru**. Mae proses newydd o gasglu data ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc yn y camau datblygu cynnar ac unwaith y bydd wedi'i sefydlu, bydd data ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â data iechyd meddwl eraill.

## Perfformiad

### Targedau

- 95% o gleifion yn aros llai na 26 wythnos ar ôl atgyfeirio
- Dim cleifion yn aros yn hirach na 36 wythnos am driniaeth ar ôl atgyfeirio.


Yn ystod pandemig COVID-19, nid yw byrddau iechyd wedi cyflawni'r un lefel o ddilysu ar ddata perfformiad amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth ag yr oeddent yn flaenorol. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu ystadegau perfformiad o fis Mawrth 2020 ymlaen â misoedd blaenorol oherwydd y newidiadau hyn. Mae

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

rhagor o wybodaeth ar gael yn y **nodiadau**.

Cyn pandemig COVID-19, roedd y perfformiad yn erbyn y ddau darged amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn weddol sefydlog rhwng 2016 a dechrau 2019, ond roedd wedi bod yn dirywio ers canol 2019.

**Siart 11: Canran y llwybrau cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos, yn ôl mis ac wythnosau o aros, Tachwedd 2015 i Dachwedd 2020**




Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Gwasanaeth Gwybodeg GIG

## Canran y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth o fewn y targed amser fesul mis a grwpiau o wythnosau ar StatsCymru


Roedd canran y llwybrau cleifion a oedd yn aros llai na 26 wythnos wedi disgyn ar ddechrau pandemig COVID-19, gan gyrraedd y lefel isaf erioed ym mis Medi 2020. Dros y misoedd diweddaraf mae canran uwch o gleifion wedi bod yn aros llai na 26 wythnos, ond mae'n dal yn is o lawer na'r ganran cyn y pandemig.

O'r 530,371 o lwybrau cleifion a oedd yn aros i ddechrau triniaeth erbyn diwedd mis Tachwedd 2020, roedd 51.4% (272,751 o lwybrau cleifion) wedi bod yn aros llai na 26 wythnos.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Roedd canran y llwybrau cleifion a oedd yn aros llai na 26 wythnos wedi cynyddu 3.0 pwynt canran o'i gymharu â mis Hydref 2020 ond roedd 33.3 pwynt canran yn is na mis Tachwedd 2019.

### Siart 12: Canran y llwybrau cleifion sy'n aros llai na 36 wythnos, yn ôl mis ac wythnosau o aros, Tachwedd 2015 i Dachwedd 2020




Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Gwasanaeth Gwybodeg GIG

**Canran y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth o fewn y targed amser fesul mis a grwpiau o wythnosau ar StatsCymru**

Mae nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dros 36 wythnos wedi cynyddu ers dechrau pandemig COVID-19, gyda naw gwaith yn fwy o lwybrau cleifion yn aros dros 36 wythnos ym mis Tachwedd 2020 o'i gymharu â mis Chwefror 2020.

Roedd 231,722 o gleifion (43.7% o'r holl lwybrau cleifion a oedd yn aros i ddechrau triniaeth) wedi bod yn aros mwy na 36 wythnos o'r dyddiad y cafodd y llythyr atgyfeirio ei dderbyn gan yr ysbyty. Dyma'r ffigur uchaf ers dechrau casglu data o'r fath ym mis Hydref 2011.

Roedd nifer y llwybrau cleifion sy'n aros mwy na 36 wythnos wedi cynyddu 4.6% o'i gymharu â mis Hydref 2020 ac roedd ychydig dros ddeg gwaith yn fwy nag


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ym mis Tachwedd 2019.

Mae gwybodaeth gyd-destunol yn dangos mai canolrif amser aros llwybr claf i ddechrau triniaeth oedd oddeutu 10 wythnos yn gyffredinol rhwng diwedd 2013 a mis Chwefror 2020, ond mae hyn wedi cynyddu ers i'r pandemig daro. Roedd canolrif yr amser aros yn 24.1 wythnos ym mis Tachwedd 2020, i lawr o 29.4 wythnos ym mis Hydref 2020 ond i fyny o 10.1 wythnos ym mis Tachwedd 2019.

## 3.4 Gwasanaethau canser

Mae gwasanaethau canser wedi aros ar agor drwy gydol y pandemig ond maen nhw wedi gorfod gweithredu ar lai o gapasiti. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn y **nodiadau**.

O fis Chwefror 2021 ymlaen, bydd cyhoeddi data canser yn canolbwyntio ar yr un llwybr canser yn unig. Mae hyn er mwyn cyd-fynd â chyflwyno targed newydd ar gyfer un llwybr canser, a gyflwynwyd ar 18 Tachwedd 2020 ac sy'n berthnasol i'r holl gleifion sy'n cael eu trin ar yr un llwybr canser o 1 Rhagfyr 2020 ymlaen. Bydd y targedau a'r casglu data cysylltiedig drwy'r llwybrau brys a'r llwybrau nad ydynt yn rhai brys yn dod i ben o hyn ymlaen. Mae rhagor o fanylion am y newid arfaethedig hwn ar gael yn y **nodiadau**.

### Ystadegau arbrofol: Un llwybr canser

Hyd yma, mae'r data a gasglwyd yn uniongyrchol gan fyrddau iechyd ac a gyhoeddwyd yn y datganiad hwn sy'n ymwneud â'r un llwybr canser wedi cael eu dynodi gyda statws **ystadegau arbrofol**. O ddatganiad mis Chwefror ymlaen, bydd data am yr un llwybr canser yn cael eu casglu gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru drwy broses casglu data ganolog newydd a byddant hefyd yn cael eu dynodi fel data arbrofol.

O dan yr un llwybr canser, mae llwybr yn dechrau pan fydd amheuaeth (er enghraifft pan fydd meddyg teulu'n gwneud atgyfeiriad) a dyma pryd mae'r amser aros a gofnodir yn dechrau. Bydd y llwybr yn cael ei gau, a bydd yr amser aros yn dod i ben, pan fydd y claf yn dechrau ei driniaeth ddiffiniol gyntaf, yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cael ei israddio (yn cael gwybod nas oes canser arno), yn dewis peidio â chael triniaeth neu os bydd y claf yn marw. Bydd y casglu data newydd yn seiliedig ar ddata am y llwybrau sy'n cael eu cau (llwybrau sydd wedi dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf) a byddant yn mesur gweithgarwch drwy nifer y cleifion sy'n cael eu trin neu sy'n cael gwybod gan arbenigwr nad oes canser arnynt, yn hytrach na nifer y cleifion sy'n ymuno â'r llwybr.

Ym mis Chwefror, bwriedir cyhoeddi tri phennawd ystadegau ar yr un llwybr canser, sef:

- nifer y cleifion sydd wedi cael eu hisraddio (wedi cael gwybod nad oes canser arnynt)
- nifer y cleifion sydd wedi cael eu trin
- nifer a chanran y cleifion sy'n cael eu trin o fewn yr amser targed sef 62 diwrnod heb atal dros dro

Bwriedir cyhoeddi nifer o fesurau ehangach o'r un llwybr canser ym mis Mawrth, er mwyn rhoi mwy o gyd-destun i weithgarwch a pherfformiad gwasanaethau canser yng Nghymru. Y bwriad yw y bydd data mwy cadarn yn cael eu casglu o ddata llwybrau agored yn nes ymlaen yn 2021.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gweithgaredd

### Siart 13: Nifer y cleifion sy’n dechrau ar un llwybr canser sydd newydd gael gwybod yr amheuir bod ganddynt ganser, Gorffennaf 2019 i Dachwedd 2020




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Nifer y cleifion sy’n ymuno â’r un llwybr canser yn ôl bwrdd iechyd lleol, y nifer sy’n dechrau triniaeth a pherfformiad yn cyfrif am ohiriadau, o fis Mehefin 2019 ymlaen ar StatsCymru**

Mae ystadegau arbrofol yn dangos bod nifer y cleifion sy’n ymuno â’r un llwybr canser (y rhai yr amheuir bod ganddynt ganser, fel achos newydd) wedi haneru ym mis Ebrill 2020, ar ddechrau’r pandemig. Ers hynny, mae nifer y cleifion sy’n ymuno â’r llwybr wedi cynyddu yn y rhan fwyaf o fisoedd ac mae ar lefel weddol debyg i’r misoedd yn union cyn cyfnod COVID-19 (mis Tachwedd 2019 i fis Chwefror 2020).

Ym mis Tachwedd 2020, roedd 11,717 o gleifion wedi ymuno â’r llwybr. Mae hyn yn ostyngiad o 1.9% (223 yn llai o gleifion) o’i gymharu â mis Hydref 2020 ac yn ostyngiad o 9.3% (1,201 yn llai o gleifion) o’i gymharu â mis Tachwedd 2019.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.


Ym mis Tachwedd 2020, cafodd 1,394 o gleifion a oedd newydd gael diagnosis o ganser eu trin drwy'r un llwybr canser. Mae hyn yn gynnydd o 1.0% (14 yn fwy o gleifion) o'i gymharu â mis Hydref 2020 ac yn gynnydd o 0.8% (11 yn fwy o gleifion) o'i gymharu â mis Tachwedd 2019.

## Perfformiad

### Targed

Fel y **cyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**, daeth y targed newydd ar gyfer un llwybr canser i rym ar 1 Rhagfyr 2020.. Y targed yw: 75% o gleifion yn dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod (heb ohiriadau) o gael eu hamau o ganser am y tro cyntaf. Bydd y targed hwn yn parhau tan fis Mawrth 2022, pan fydd y targed yn cael ei adolygu. Nid yw data a gyhoeddwyd ar gyfer cyfnodau amser cyn cyhoeddi'r targed yn ddarostyngedig i'r targed.

**Siart 14: Canran y cleifion sy'n cael eu trin o fewn 62 diwrnod (heb gynnwys gohiriadau) ar yr un llwybr canser, Gorffennaf 2019 i Dachwedd 2020**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

## Nifer y cleifion sy'n ymuno â'r un llwybr canser yn ôl bwrdd iechyd lleol, y nifer sy'n dechrau triniaeth a pherfformiad yn cyfrif am ohiriadau ar


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am hawlfraint.

Mae'r perfformiad yn erbyn y targed 62 diwrnod wedi aros yn gymharol sefydlog ers casglu'r data am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2019. Yn ystod camau cynnar pandemig COVID-19, roedd perfformiad yn erbyn y targed wedi gwella, gan gyrraedd uchafbwynt o 71.1% ym mis Gorffennaf 2020. Ers hynny, mae'r ganran sy'n dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod wedi gostwng, ond mae'n dal ychydig yn uwch na'r misoedd yn union cyn y pandemig.

Mae'r data diweddaraf ym mis Tachwedd 2020 yn dangos bod 63.5% o gleifion (885 allan o 1,394) sydd newydd gael diagnosis o ganser drwy'r un llwybr canser wedi dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod o'r adeg y codwyd yr amheuaeth (gyda gohiriadau). Mae hyn 1.2 pwynt canran yn is nag ym mis Hydref 2020 ond 3.8 pwynt canran yn uwch na mis Tachwedd 2019.

## 3.5 Cleifion sy'n dechrau triniaeth canser wedi'u hatgyfeirio drwy'r llwybr brys amheuaeth o ganser a'r llwybr heb fod yn frys

Dyma'r cyhoeddiad olaf lle bydd data am wasanaethau canser yn cael ei gasglu yn ei fformat presennol. Bydd y targedau a'r casglu data cysylltiedig ar gyfer cleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser sy'n dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf, boed hynny drwy'r llwybrau brys ai peidio, yn dod i ben o hyn ymlaen. O fis Chwefror 2021 ymlaen, bydd cyhoeddi data canser yn canolbwyntio ar yr un llwybr canser yn unig.

### Gweithgaredd

Yn ystod misoedd cynnar y pandemig, cafodd COVID-19 effaith ar nifer y cleifion a oedd newydd gael diagnosis yn dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf drwy'r llwybr brys oherwydd amheuaeth o ganser.

Roedd nifer y cleifion a ddechreuodd driniaeth rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020 yn is nag mewn mis arferol cyn y pandemig, ond erbyn mis Gorffennaf 2020 roedd y nifer wedi cynyddu ac roedd wedi dychwelyd i lefel debyg i'r un

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cyn y pandemig.

Roedd nifer y cleifion a oedd newydd gael diagnosis ac a oedd yn dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf, heb fod ar y llwybr brys, hefyd wedi gostwng yn ystod rhan gyntaf y pandemig. Dros y misoedd diweddaraf, mae hyn wedi cynyddu ond mae'n dal yn is na'r lefel cyn y pandemig.

Mae data am nifer y cleifion sy'n cael eu trin drwy'r llwybrau brys ac llwybrau nad ydynt yn rhai brys yn aml yn amrywio'n fawr bob mis. Er mwyn lleihau effaith yr ansefydlogrwydd hwn a deall lefelau gweithgarwch yn well dros amser, argymhellir bod data canser ar gyfer y ddau lwybr hyn yn cael ei ddadansoddi dros gyfnod o ddeuddeg mis.

Yn ystod y 12 mis hyd at fis Tachwedd 2020, roedd 7,952 o gleifion a oedd newydd gael diagnosis o ganser wedi dechrau ar eu triniaeth drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser. Mae hyn yn ostyngiad o 2.8% (233 o gleifion) o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol (y flwyddyn ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2019) ond yn gynnydd o 17.6% (1,192 o gleifion) o'r cyfnod cyfatebol 5 mlynedd yn ôl (y flwyddyn ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2015).

Yn ystod y 12 mis hyd at fis Tachwedd 2020, dechreuodd 7,937 o gleifion a oedd newydd gael diagnosis o ganser, a hynny heb fod drwy'r llwybr brys, ar driniaeth. Mae hyn yn ostyngiad o 12.3% (1,113 o gleifion) o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol (y flwyddyn ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2019) ac yn ostyngiad o 15.0% (1,400 yn llai o gleifion) o'r cyfnod cyfatebol 5 mlynedd yn ôl (y flwyddyn ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2015).

Gan fod y ffigurau hyn yn seiliedig ar gyfartaledd treigl 12 mis mae'n bosibl na welir effaith lawn pandemig COVID-19 tan nes ymlaen yn y flwyddyn.

## Perfformiad

### Targedau

- Llwybr brys gydag amheuaeth o ganser: Bydd o leiaf 95% o gleifion sy'n cael diagnosis o ganser yn dechrau triniaeth ddiffiniol o fewn 62 diwrnod o gael

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

eu hatgyfeirio.
- Heb fod ar y llwybr brys: Bydd o leiaf 98% o gleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser yn dechrau triniaeth ddiffiniol o fewn 31 diwrnod o'r penderfyniad i drin y canser (ni waeth beth yw'r llwybr atgyfeirio).

Er bod y perfformiad o fis i fis yn erbyn y ddau darged yn gallu amrywio'n sylweddol, roedd y perfformiad wedi aros yn weddol sefydlog rhwng dechrau 2016 a chanol 2019. Fodd bynnag, ers hynny gwelwyd gostyngiad cyffredinol yn y perfformiad yn erbyn y ddau darged, ac roedd hynny'n fwy amlwg ar gyfer y llwybr brys lle ceir amheuaeth o ganser.

Mae canran y cleifion sy'n cael eu trin o fewn yr amser targed drwy'r llwybr brys ar gyfer amheuaeth o ganser wedi codi a gostwng dros gyfnod y pandemig. Roedd y perfformiad wedi gwella ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2020, ond wedi dirywio yn ystod y misoedd diweddaraf.


Sylwch fod y ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad yn erbyn targed yr un llwybr canser hefyd yn effeithio ar berfformiad yn erbyn y targedau llwybr brys ac heb fod yn frys.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 15: Canran y cleifion sy’n dechrau triniaeth drwy’r llwybr brys ar gyfer amheuaeth o ganser, Tachwedd 2015 i Dachwedd 2020




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

### Cleifion sydd newydd gael diagnosis drwy’r llwybr brys ar gyfer amheuaeth o ganser ac sy’n dechrau triniaeth yn ôl bwrdd iechyd lleol, lleoliad tiwmor a mis ar StatsCymru


Sylwch nad yw’r echelin-y yn dechrau ar sero ar siart 15.

Ym mis Tachwedd 2020, dechreuwyd triniaeth ddiffiniol ar gyfer 70.2% o gleifion (536 allan o 764) a oedd newydd gael gwybod bod canser arnynt drwy’r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser, a hynny o fewn yr amser targed o 62 diwrnod. Mae hyn o dan y targed o 95% ac yn 3.5 pwynt canran yn is na mis Hydref 2020.

Ar gyfer y 12 mis diwethaf, hyd at fis Tachwedd 2020, dechreuwyd triniaeth ddiffiniol ar gyfer 76.7% o gleifion a oedd newydd gael gwybod bod canser arnynt drwy’r llwybr brys ar gyfer achosion lle’r amheuir canser, a hynny o fewn yr amser targed o 62 diwrnod. Mae hyn 5.8 pwynt canran yn is na’r 12 mis blaenorol a 7.8 pwynt canran yn is na’r cyfnod 12 mis cyfatebol 5 mlynedd yn ôl.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am hawlfraint.

## Siart 16: Canran y cleifion sy'n dechrau triniaeth heb fod ar y llwybr brys ar gyfer amheuaeth o ganser, Tachwedd 2015 i Dachwedd 2020




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Cleifion sydd newydd gael diagnosis ond nid drwy'r llwybr brys lle'r amheuir canser, s'yn dechrau triniaeth yn ôl bwrdd iechyd lleol, lleoliad tiwmor a mis ar StatsCymru**

Sylwch nad yw'r echelin-y yn dechrau ar sero ar siart 16.

Ym mis Tachwedd 2020, dechreuwyd triniaeth ddiffiniol ar gyfer 91.6% y cant o gleifion (577 allan o 630) a oedd newydd gael gwybod bod canser arnynt ond nid drwy'r llwybr brys, a hynny o fewn yr amser targed o 31 diwrnod. Mae hyn o dan y targed o 98% a 2.3 pwynt canran yn is na mis Hydref 2020.

Ar gyfer y 12 mis diwethaf, hyd at fis Tachwedd 2020, dechreuwyd triniaeth ddiffiniol ar gyfer 95.2% o gleifion a oedd newydd gael gwybod bod canser arnynt ond nid drwy'r llwybr brys, a hynny o fewn yr amser targed o 31 diwrnod. Mae hyn 1.4 pwynt canran yn is na'r 12 mis blaenorol a 1.6 pwynt canran yn is na'r cyfnod 12 mis cyfatebol 5 mlynedd yn ôl.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am hawlfraint.

# 4. Newidiadau i ddata perfformiad y GIG yn y misoedd i ddod

Dros y misoedd nesaf, mae nifer o newidiadau yn yr arfaeth o ran mesur perfformiad yng ngwasanaethau'r GIG a fydd yn effeithio ar yr ystadegau a gyhoeddir yn y datganiad hwn. Wrth i gynlluniau ddatblygu, bydd manylion ychwanegol yn cael eu cynnwys yn natganiad ystadegol perfformiad a gweithgarwch misol y GIG. Rydym yn croesawu adborth ar y cynlluniau hyn. Ar hyn o bryd, dyma'r newidiadau arfaethedig:

## Adrannau brys

Ochr yn ochr â'r Ystadegau Gwladol, mae tri mesur newydd wedi cael eu datblygu fel rhan o raglen Fframwaith Cyflawni Ansawdd Adrannau Achosion Brys. Mae'r rhaglen hon wedi datblygu ystod ehangach o fesurau, er mwyn rhoi mwy o gyd-destun i ddarparu gofal mewn adrannau brys. Bydd y rhain yn cynnwys mesur yr amser rhwng y claf yn cyrraedd a chael ei frysbennu, yr amser rhwng y claf yn cyrraedd a chael cysylltiad â gwneuthurwr penderfyniadau clinigol, a dadansoddiad o ble fydd y claf yn mynd ar ôl gadael yr adran achosion brys.

Wrth i'r setiau data a'r prosesau casglu data ar gyfer y mesurau newydd gael eu datblygu, byddant yn cael eu cyhoeddi fel gwybodaeth reoli ar wefan yr **Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol** ar yr un diwrnod â'r cyhoeddiad hwn. Gan ddibynnu ar fod y data'n gadarn ac yn bodloni gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r rhain ochr yn ochr â'n hystadegau swyddogol ddechrau 2021, gyda statws ystadegau arbrofol yn y lle cyntaf.

Er bod yr Ystadegau Gwladol a gyhoeddir yn y datganiad hwn yn seiliedig ar yr un data sylfaenol â'r rhai a gyhoeddir gan yr Uned, bydd y niferoedd a gyflwynir ar gyfer presenoldeb mewn adrannau brys mawr yn amrywio ychydig. Y rheswm am hyn yw bod yr Ystadegau Gwladol yn cynnwys enwadur amser aros, sy'n gwneud eithriadau penodol i set ddata sylfaenol yr adrannau brys. Mae'r rhain yn golygu eithrio cleifion y gwyddys bod archwiliad dilynol wedi'i drefnu a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

phresenoldeb lle’r oedd y claf wedi marw erbyn cyrraedd adran frys. Defnyddir yr eithriadau hyn er mwyn cyfrifo amseroedd aros cywir cleifion mewn adrannau brys cyn i gleifion gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. Er bod y ddwy set ddata yn mynd drwy brosesau ychydig yn wahanol, dim ond ychydig iawn o wahaniaeth fydd rhwng y niferoedd a gyhoeddir.

## Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal (DTOC)

Ar ddechrau’r pandemig, ataliodd Llywodraeth Cymru y gofynion adrodd ar oedi wrth drosglwyddo gofal, ynghyd â nifer o setiau data eraill. Yn y cyfamser, cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Ofynion Rhyddhau COVID-19**, a oedd yn cynnwys proses ryddhau newydd gyda mwy o ffocws ar adsefydlu ac ail-alluogi.

Mae tîm polisi a pherfformiad gofal brys Llywodraeth Cymru ac Uned Gyflawni’r GIG wedi bod yn casglu data wythnosol interim oedi wrth ryddhau i reoli’r trefniadau newydd. Nid yw’r data hwn yn mesur oedi wrth drosglwyddo gofal yn yr un ffordd â’r data a gasglwyd yn flaenorol, ac nid yw wedi cael ei asesu yn erbyn safonau’r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Bydd opsiynau ar gyfer casglu a chyhoeddi data a mesurau perfformiad yn y dyfodol yn cael eu datblygu dros y misoedd nesaf.

## Triniaethau arbenigol nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan ddata amser rhwng cyfeirio a thriniaeth (y cyfeirir ato hefyd fel data nad yw’n RTT)

Mae’r data a gasglwyd yn flaenorol drwy’r trefniant casglu data PP01W sydd wedi bodoli ers tro bellach wedi dod i ben yn dilyn asesiad effaith, felly mae’r ystadegau a oedd yn seiliedig ar hyn wedi dod i ben hefyd.

Mae data arbenigol ar wasanaethau iechyd meddwl plant a’r glasoed (sCAMHS) wedi cael ei gasglu gan ddefnyddio gwybodaeth reoli ers mis Ebrill 2018 yn dilyn problemau a nodwyd wrth gasglu data PP01W. Bydd data sCAMHS yn parhau i gael ei gasglu a’i gyhoeddi ar y sail hon yn y tymor byr, cyn y datblygir proses ganolog newydd i gasglu data. Yna, bwriedir cyhoeddi data sCAMHS ochr yn ochr â **data iechyd meddwl arall** ar ôl sefydlu’r broses newydd. Y targed ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gyfer cyflawni hyn yw gwanwyn 2021.

## Gwasanaethau canser

Fel y nodwyd mewn datganiadau ystadegol blaenorol, y nod ers peth amser bellach yw disodli'r mesurau perfformiad canser presennol (y llwybrau canser brys a'r llwybrau nad ydynt yn frys) gydag un llwybr canser. Mae'r un llwybr canser yn darparu dull mwy tryloyw ac ystyrlon o fesur perfformiad gwasanaethau canser. Mae'n gwneud hyn drwy fesur yr amser ar y llwybr canser o'r adeg pan fydd amheuaeth o ganser yn hytrach na'r adeg y gwneir penderfyniad i roi triniaeth.

Fel y cyhoeddwyd ar 18 Tachwedd 2020, mae targed newydd yn ei le ar gyfer yr un llwybr canser a daw i rym o 1 Rhagfyr 2020 ymlaen. Hyd yma, mae data arbrofol ar gyfer yr un llwybr canser (gydag a heb ohiriadau) wedi cael ei gasglu'n uniongyrchol drwy fyrddau iechyd a'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ers mis Mehefin 2019. Mae proses casglu data ganolog newydd yn cael ei sefydlu gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) a bydd data un llwybr canser a gesglir drwy'r broses hon yn disodli'r data a gesglir yn uniongyrchol gan fyrddau iechyd.

Yn natganiad ystadegol mis Chwefror, bwriedir cyhoeddi data ar nifer y cleifion sydd wedi cael eu hisraddio (sy'n cael gwybod nad oes canser arnynt), nifer y cleifion sy'n cael eu triniaeth ddiffiniol gyntaf, a nifer a chanran y cleifion sy'n cael eu trin o fewn yr amser targed. Sylwch mai dim ond ar lwybrau sydd wedi cau y mae'r data newydd yn cael ei gasglu, felly ni fydd nifer y bobl sy'n ymuno â'r llwybr (hy yr amheuir bod canser arnynt yn gyntaf) ar gael. Mae'r data arbrofol cyfredol a gyhoeddwyd ar y mesur hwn yn cynnwys atgyfeiriadau dyblyg ac efallai nad yw'n cynnwys data o bob ffynhonnell atgyfeirio felly mae ei ddefnydd yn gyfyngedig.

Ar ôl datganiad ystadegol mis Ionawr, ni fydd y targedau ar gyfer y llwybrau brys a'r llwybrau nad ydynt yn rhai brys yn weithredol mwyach, felly, bydd y gwaith o gasglu a chyhoeddi data ar gyfer y llwybrau hyn yn dod i ben.

Sylwch fod y data arbrofol cyfredol a gyhoeddir ar yr un llwybr canser yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cynnwys data gydag a heb ataliad dros dro. Mae gohiriad yn golygu bod modd addasu’r amser aros am wahanol resymau, er enghraifft y claf yn gwrthod apwyntiad neu nid yw’n ddigon da i fynd i apwyntiad. Ni fydd y data a gaiff ei gyhoeddi ym mis Chwefror (ar gyfer cyfnod adrodd mis Rhagfyr 2020) yn cynnwys unrhyw ohiriadau, ond oherwydd y gwahanol ddulliau o gasglu a dilysu, efallai na fydd modd ei gymharu’n uniongyrchol â’r holl ddata ar yr un llwybr canser a gyhoeddwyd yn flaenorol. Bydd cyhoeddi’r ystadegau hyn am y tro cyntaf hefyd yn cael ei ystyried yn arbrofol.

Ochr yn ochr â’r symudiad i adrodd ar yr un llwybr canser yn unig, mae ystod o fesurau perfformiad cyd-destunol ehangach yn cael eu datblygu. Mae’r rhain yn cael eu dwyn ynghyd drwy ddefnyddio’r Adnodd Data Cenedlaethol yn NWIS a bwriedir eu cyhoeddi fel ystadegau arbrofol, ym mis Mawrth 2021.

# 5. Gwybodaeth allweddol am ansawdd

## Ansawdd data yn ystod pandemig COVID-19

Yn ystod pandemig COVID-19 mae adnoddau ar draws holl sefydliadau’r GIG wedi cael eu hymestyn, gan gynnwys y rheini sy’n gyfrifol am gofnodi, prosesu a dilysu data. Mae hyn yn golygu efallai na fydd rhywfaint o’r data sydd wedi’i gynnwys yn y datganiad ystadegol hwn wedi cael yr un gwiriadau dilysu trylwyr ag a fyddai wedi digwydd fel arfer cyn y pandemig. Er bod y data a gyflwynwyd yn ystod y pandemig yn gyffredinol yn ymddangos o ansawdd dda, mae rhai materion yn ymwneud ag ansawdd data penodol. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Nid oedd bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno data ar gyfer nifer y llwybrau a oedd yn aros am wasanaethau therapi ym mis Ebrill 2020. Mae hyn yn effeithio ar weithgarwch gwasanaethau diagnostig a therapi a data perfformiad yn y mis hwnnw yn unig.
- Nid oedd ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn gallu cyflwyno data monitro pwysedd gwaed, ecocardiogram a data is-arbenigedd rhythm y galon ar gyfer mis Awst a mis Medi 2020.
- Ni allai ysbyty Tywysoges Cymru gyflwyno data is-arbenigedd ymgynghorydd, gastrosgopi ac MRI ar gyfer mis Awst a mis Medi 2020. Mae

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

hyn yn effeithio ar weithgarwch gwasanaethau diagnostig a therapi a data perfformiad yng Nghwm Taf Morgannwg, Bae Abertawe ac ar lefel Cymru yn y misoedd hynny.

- Er bod y rhestrau aros amser rhwng cyfeirio a thriniaeth yn parhau'n weithredol, mae clinigwyr wedi gorfod adolygu'r holl gleifion sydd ar y rhestrau aros ar wahanol gamau er mwyn nodi blaenoriaethau clinigol. Nid yw'r byrddau iechyd lleol wedi gallu gwneud cymaint o waith dilysu ar ddata rhestrau aros gan fod eu hadnoddau yn gorfod canolbwyntio hefyd ar gefnogi'r ffyrdd newydd o weithio. Mae hyn yn effeithio ar y gweithgarwch amser rhwng cyfeirio a thriniaeth a'r data perfformiad.
- Sylwch na wnaeth bwrdd iechyd Hywel Dda gyflwyno unrhyw ddata atgyfeirio cleifion allanol ar gyfer codau triniaeth iechyd meddwl ers mis Gorffennaf 2020 oherwydd y prosiect Mudo Iechyd Meddwl. Mae hyn yn cael effaith fach ar nifer cyffredinol y cleifion a gafodd eu hatgyfeirio yn y misoedd hynny, ar lefel Cymru.
- Er nad yw'n benodol i COVID-19, nid yw Cwm Taf Morgannwg wedi cyflwyno data llwybrau wedi'u cau ers mis Medi 2018 (bwrdd iechyd Cwm Taf rhwng mis Medi 2018 a mis Mawrth 2019). Felly, dim ond at y chwe bwrdd iechyd arall y mae data llwybrau sydd wedi cau yn cyfeirio er mwyn gallu dadansoddi tueddiadau ar lefel genedlaethol.

## Awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn symud bwrdd iechyd

Symudodd darpariaeth gwasanaeth iechyd preswylwyr **awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr** o Abertawe Bro Morgannwg i Gwm Taf ar 1 Ebrill 2019. Cafodd **enwau'r byrddau iechyd eu cadarnhau mewn datganiad ysgrifenedig** gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi newid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi newid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae'r holl setiau data nawr yn cael eu cyhoeddi ar y sail newydd (dechreuodd data ar gyfer gofal heb ei drefnu gael eu cyhoeddi ar y sail newydd yn natganiad mis Mai 2019 a bydd hynny'n digwydd ar gyfer gofal wedi'i drefnu o'r datganiad hwn ymlaen). Mae dadansoddiadau'r bwrdd iechyd lleol ar StatsCymru a'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

dangosfwrdd rhyngweithiol yn adlewyrchu'r newid hwn i'r ffiniau. Gan mai crynodebau data ar berfformiad yw'r rhain, nid ydym wedi ôl-ddyddio y data hanesyddol ar gyfer y byrddau iechyd newydd. Rydym wedi rhoi'r gorau i gyhoeddi data ar gyfer y ffiniau blaenorol.

## Amseroedd ymateb ambiwlansys

Yn ystod pandemig COVID-19, mae staff ymateb i argyfwng wedi gorfod gwisgo cyfarpar diogelu personol ychwanegol a fydd yn effeithio ar ba mor gyflym maen nhw'n gallu ymateb i alwad. Ar ben hynny, ar ôl i ambiwlans gael ei anfon i'r fan a'r lle, rhaid iddo wedyn fynd drwy brosesau glanhau ychwanegol i atal y feirws rhag lledaenu. Mae hyn yn golygu bod y cerbyd yn cael ei dynnu oddi ar y ffordd am gyfnod a gallai hyn hefyd effeithio ar amseroedd ymateb yn ystod y cyfnod hwn.

Fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r model ymateb clinigol, mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn adolygu'r arferion ymdrin â galwadau a chategoreiddio digwyddiadau yn rheolaidd. Mae'n ymddangos bod addasu'r arferion trin galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at wahaniaethau yn nifer y galwadau coch. Felly, nid yw'n bosibl cymharu niferoedd digwyddiadau coch cyn hyn. Gallai cynnydd yn nifer y digwyddiadau coch hefyd effeithio ar berfformiad oherwydd yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i fynd i ddigwyddiad coch.

Fel y cyhoeddwyd mewn **datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd**, rhoddwyd model ymateb clinigol newydd ar waith yng Nghymru o 1 Hydref 2015. Deuddeg mis oedd hyd y treial ar y cychwyn ond cafodd ei ymestyn am 6 mis arall. Ond, ar ôl cael adroddiad gwerthuso annibynnol a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, rhoddwyd y model ymateb clinigol ar waith (Chwefror 2017). Gweler yr **adroddiad ansawdd** i gael rhagor o fanylion.

Mae tri chategori galwadau cyffredinol

1. Coch: Lle mae bywyd rhywun yn y fantol (mae rhywun mewn perygl o farw'n gyflym, fel ataliad ar y galon).
2. Ambr: Difrifol, ond nid yw bywyd rhywun yn y fantol (cleifion fydd yn aml yn gorfod cael triniaeth yn y fan a'r lle, ac yna'n gorfod mynd i'r ysbyty).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

3. Gwyrdd: Heb fod yn frys (yn aml, bydd gwasanaethau iechyd eraill ac asesiad clinigol dros y ffôn yn gallu rheoli'r achosion hyn).

Mae categori galwad yn cael ei bennu ar sail yr wybodaeth a roddir gan y galwr yn ei ymatebion i set o gwestiynau wedi'u sgriptio, sydd yna'n cael eu brysbennu'n awtomatig gan y system Pennu Blaenoriaethau Meddygol (MPDS). Rhoddir hyd at ddau funud i'r rheini sy'n cymryd yr alwad adnabod natur cyflwr y claf a pha mor ddifrifol ydyw (ar gyfer y galwadau hynny lle nad yw bywyd yn y fantol). Bydd ambiwlans neu adnodd priodol arall yn cael ei ddanfon cyn gynted ag y bydd y cyflwr a'i ddifrifoldeb wedi'i bennu. Gyda galwadau hynod ddwys, gall hyn fod tra mae'r galwr yn dal ar y ffôn. Mae dau achlysur lle mae modd newid blaenoriaeth galwad; pan fydd gwybodaeth newydd gan y galwr yn cael ei hasesu drwy'r system MPDS, neu pan fydd nyrs neu barafeddyg wedi casglu rhagor o wybodaeth am gyflwr y claf dros y ffôn.

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â chiwbiau StatsCymru pob mis.

**Gwasanaethau Ambiwlans: StatsCymru**

**Gwasanaethau Ambiwlans: Adroddiad ansawdd**

**Gwasanaethau Ambiwlans: Cyhoeddiadau blynyddol**

## Adrannau brys

Sylwch mai fel 'A&E' yr oeddem yn cyfeirio yn Saesneg at 'adrannau brys' mewn datganiadau ystadegol cyn mis Tachwedd 2020. Yn y datganiad hwn ac yn y dyfodol, defnyddir y term 'adran frys' i egluro bod presenoldeb mewn adrannau damweiniau ac achosion brys mawr, adrannau damweiniau ac achosion brys eraill ac unedau mân anafiadau wedi'i gynnwys.

Sylwer bod nifer y derbyniadau i'r ysbyty yn seiliedig ar bresenoldeb mewn adrannau brys mawr yn unig yng Nghymru. Y rheswm am hyn yw nad yw derbyniadau i'r ysbyty o fynychu unedau mân anafiadau yn cael eu cofnodi'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gyson ledled Cymru.

Ar 17 Tachwedd agorodd adran frys fawr newydd yn ysbyty newydd Prifysgol y Faenor ym mwrdd iechyd Aneurin Bevan. Mae Ysbyty Athrofaol y Faenor yn cynnwys llu o wasanaethau arbenigol mewn un lle, gan gynnwys adran frys 24 awr ac uned asesu ar gyfer argyfyngau mawr a dadebru lle gallai fod angen gofal dwys pellach.

O gyhoeddiad Ionawr 2021 ymlaen, bydd Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall yn cael eu hailddosbarthu ar ôl agor yr ysbyty prifysgol newydd y Grange. Fe’u dosberthir dan y categori “Adran frys arall/Unedau Mân Anafiadau – Adran frys arall/Unedau Mân Anafiadau” – a ddiffinnir fel yr holl adrannau brys eraill/unedau mân anafiadau sydd â llety dynodedig ar gyfer derbyn cleifion damweiniau ac achosion brys, y gellir cael mynediad iddynt fel mater o drefn heb apwyntiad, ond nad ydynt yn bodloni’r meini prawf ar gyfer adran frys fawr. Mae hyn hefyd yn golygu na fydd derbyniadau o adrannau brys mawr yn cynnwys derbyniadau yn sgil ymweld ag Ysbyty Brenhinol Gwent neu Ysbyty Nevill Hall o gyhoeddiad mis Ionawr ymlaen.

Diffinnir adrannau brys mawr fel gwasanaeth dan arweiniad meddygon ymgynghorol gyda chyfleusterau dadebru a llety ar gyfer derbyn cleifion adran frys. Rhaid i adrannau brys mawr ddarparu gwasanaethau dadebru, asesu a thrin salwch acíwt ac anafiadau i gleifion o bob oed, a rhaid i wasanaethau fod ar gael 24 awr y dydd yn ddi-dor. Caiff Unedau Damweiniau ac Achosion Brys/ Mân Anafiadau eraill eu diffinio fel yr holl unedau damweiniau ac achosion brys/ mân anafiadau eraill, sydd â llety i dderbyn cleifion brys, y gellir cael mynediad iddynt heb apwyntiad.

Yn ystod pandemig COVID-19, caeodd nifer o unedau mân anafiadau dros dro, ond mae rhai wedi ailagor ers hynny. Y rhain yw Ysbyty’r Barri (a gaewyd ym mis Mawrth 2020; a ailagorwyd ym mis Medi 2020); Bryn Beryl (a agorwyd ym mis Mai 2020; a ailagorwyd ym mis Medi 2020); Ysbyty Dolgellau ac Ysbyty Dosbarth y Bermo (a gaewyd ym mis Ebrill 2020; yn dal ar gau); Ysbyty Coffa Rhyfel Tywyn a’r Cylch (a gaewyd ym mis Mehefin 2020; yn dal ar gau); ac Ysbyty Cymuned Llanymddyfri (a gaewyd ym mis Ebrill 2020; yn dal ar gau).

Ers 5 Awst 2020, mae model newydd (gwasanaeth CAV24/7) wedi bod ar waith

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sy'n effeithio ar sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn ei adrannau brys. Mae'r model 'Ffonio'n Gyntaf' newydd yn annog cleifion i ffonio ymlaen llaw i gael eu brysbennu os oes angen dybryd arnynt i fynd i adran achosion brys ond nad oes ganddynt gyflwr lle mae eu bywyd yn y fantol ar y pryd. Yn dibynnu ar ddifrifoldeb y cyflwr, efallai y cânt eu hannog i hunan-ofalu; eu cyfeirio at wasanaeth mwy priodol yn eu cymuned leol; neu gellir archebu slot amser yn uniongyrchol iddynt mewn adran achosion brys os oes angen asesiad a thriniaeth bellach arnynt.

Mae byrddau iechyd eraill yn gweithio tuag at gyflwyno gwasanaethau tebyg ond nid ydynt wedi rhoi dim byd ar waith eto.

O ran mesur faint o amser y mae claf yn aros, nid yw amser dechrau'r cloc wedi newid: mae'r amser yn dechrau pan fydd y claf yn cyrraedd yr adran achosion brys yn bersonol. Er bod y gwasanaeth yn ei ddyddiau cynnar, cynhelir profion dilysu ychwanegol ar ddata Caerdydd a'r Fro i asesu effaith y newidiadau. Hyd yma, nid yw lefel y gweithgarwch na'r perfformiad yn erbyn y ddau darged ar gyfer adrannau achosion brys wedi newid rhyw lawer ers cyflwyno'r gwasanaeth.

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru sy'n darparu'r data hyn o Set Ddata Adran Achosion Brys (EDDS). Dyma ffynhonnell lawn o ddata lefel cleifion ar dderbyniadau i gyfleusterau gofal mewn argyfwng yng Nghymru ac mae'n cael ei defnyddio'n bennaf ar gyfer targedau perfformiad.

Targedau: Amser a dreulir mewn adrannau brys:

- dylai 95% o gleifion newydd dreulio llai na 4 awr mewn adrannau achosion brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau
- ni ddylai'r un claf orfod aros mwy na 12 awr mewn adrannau achosion brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau

Diwygiadau: Mae rhai ffigurau'n debygol o gael eu diwygio yn y misoedd i ddod. Mae pob cyflwyniad gan fyrddau iechyd yn cynnwys data am hyd at y 12 mis diwethaf. Gall hyn gynnwys mân ddiwygiadau i gyfnodau a gyhoeddwyd yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

flaenorol. Bydd y data diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ar StatsCymru gyda’r mis diweddaraf. Bydd troednodiadau’n cael eu cynnwys am unrhyw ddiwygiadau sylweddol a byddant yn cael eu crybwyll yn y datganiad ystadegau.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae'r ffigurau ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn Ystadegau Gwladol. Mae pedair gwlad y DU yn cyhoeddi gwybodaeth am yr amser a dreulir mewn adrannau brys/Damweiniau ac Achosion Brys, er bod hyn yn gallu cael ei labelu o dan Adran Frys (fel yn yr Alban) neu Ofal mewn Argyfwng (fel yng Ngogledd Iwerddon). Nid oes modd cymharu’r ystadegau a gyhoeddir yn llwyr oherwydd: eu bod wedi cael eu cynllunio i fonitro targedau a ddatblygwyd ar wahân ym mhob gwlad; bod y ddarpariaeth a’r drefn categoreiddio gwasanaethau gofal heb ei drefnu yn amrywio ar draws y DU; bod y systemau sy’n casglu’r data yn wahanol.

**Amser a dreuliwyd mewn adrannau brys: StatsCymru**

**Amser a dreuliwyd mewn adrannau brys: Adroddiad ansawdd**

**Amser a dreuliwyd mewn adrannau brys: Cyhoeddiadau blynyddol**

## Atgyfeirio cleifion allanol

Sylwch nad oedd bwrdd iechyd Hywel Dda wedi cyflwyno unrhyw ddata atgyfeirio cleifion allanol ar gyfer codau triniaeth iechyd meddwl rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2020 oherwydd y prosiect Mudo Iechyd Meddwl. I dynnu sylw at faint yr effaith a gaiff hyn ar y data: Cofnododd Hywel Dda rhwng 93 a 180 o atgyfeiriadau triniaeth iechyd meddwl bob mis rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020, ond ar gyfartaledd roedd 250 o atgyfeiriadau triniaeth iechyd meddwl bob mis yn ystod y deuddeg mis cyn y pandemig.

Diwygiadau: O fis Rhagfyr 2015 ymlaen, ein polisi diwygio yw adolygu bob 12 mis yn fisol.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae gwybodaeth debyg ar gael o rannau eraill o’r DU ond nid oes modd cymharu'r data yn llwyr oherwydd safonau a diffiniadau lleol ym mhob ardal. Cytunwyd ar safonau a diffiniadau data ar draws y byrddau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

iechyd gan sicrhau bod data’n cael ei gasglu’n gyson ledled Cymru.

**Atgyfeirio cleifion allanol: StatsCymru**

**Atgyfeirio cleifion allanol: Adroddiad ansawdd**

## Amseroedd Aros Diagnostig a Therapi (DATS)

Mae’r cynnydd yn nifer y llwybrau sy’n aros am wasanaethau diagnostig yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag effaith COVID-19. Cafodd yr holl apwyntiadau cleifion allanol nad oeddent yn rhai brys eu hatal ym mis Mawrth ac mae mesurau ychwanegol i atal heintiau wedi cael eu rhoi ar waith dros y misoedd diwethaf. Hefyd, er bod mwy o wasanaethau wedi ailddechrau, mae mesurau rheoli ac atal heintiau ychwanegol wedi’u rhoi ar waith sydd wedi effeithio ar faint o brofion diagnostig y gellir eu cyflawni.

Ar y llaw arall, mae’r ffaith fod llawer o wasanaethau therapi yn cael eu darparu ar-lein yn esbonio’n rhannol lefel is y llwybrau cleifion sy’n aros am therapïau. Mae hyn wedi arwain at fwy o gleifion yn cael apwyntiad na phe baent i gyd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb mewn ysbyty.

Sylwch na wnaeth bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr gyflwyno data therapïau ar gyfer mis Ebrill 2020. Mae hyn yn effeithio ar nifer y llwybrau cleifion sy’n aros yn ystod y mis ac ni ddylid cymharu’r data ar gyfer y mis hwn â’r misoedd eraill, ar lefel Cymru. I roi amcangyfrif o faint yr effaith, roedd 25,501 o lwybrau yn aros yn y chwe bwrdd iechyd arall ym mis Ebrill 2020, ac yn y ddau fis y naill ochr a’r llall i fis Ebrill, roedd 7,519 o lwybrau cleifion yn aros ym mis Mawrth 2020 a 9,840 ym mis Mai 2020, yn Betsi Cadwaladr.

Bydd hyn hefyd yn effeithio ar nifer a chanran y llwybrau sy’n aros yn hwy na’r amser targed. Mae data perfformiad ar gyfer mis Ebrill 2020 yn cynrychioli dim ond y chwe bwrdd iechyd a ddarparodd ddata ar gyfer y mis hwnnw. Nid oes unrhyw ddata wedi’i amcangyfrif ar gyfer y data sydd ar goll yn y datganiad hwn nac ar StatsCymru.

Targedau: Amseroedd aros i gael gafael ar wasanaethau diagnostig a therapi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

(safonau gweithredu ar gyfer amseroedd aros hiraf):

- Yr amser aros hiraf i gael profion diagnostig penodol yw 8 wythnos.
- Yr amser aros hiraf i gael gwasanaethau therapi penodol yw 14 wythnos.

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i’r data yn cael eu nodi yn y ‘Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn’ ac yn yr wybodaeth sy’n cyd-fynd â chiwbiau StatsCymru pob mis.

Cymaroldeb a chydlyniad: Gweler y nodiadau ar amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth.

**Amseroedd aros am wasanaethau Diagnostig a Therapi: StatsCymru**

**Amseroedd aros am wasanaethau Diagnostig a Therapi: Adroddiad ansawdd**

**Amseroedd aros am wasanaethau Diagnostig a Therapi: Cyhoeddiadau blynyddol**

## Amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth

Mae’r llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn cynnwys yr amser a arhoswyd o gael atgyfeiriad i fynd i’r ysbyty i gael triniaeth ac mae’n cynnwys yr amser a dreulir yn aros am unrhyw apwyntiadau, profion, sganiau neu driniaethau eraill yn yr ysbyty sydd eu hangen cyn cael triniaeth. Mae diffiniadau o'r termau a ddefnyddir a’r wybodaeth am ansawdd ar gael yn yr **Adroddiad ansawdd**.

Targedau: Amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth:

- 95% o gleifion yn aros llai na 26 wythnos rhwng atgyfeirio a thriniaeth.
- Dim cleifion yn aros yn hirach na 36 wythnos am driniaeth.

Nid yw Cwm Taf Morgannwg wedi llwyddo i ddarparu data ar gyfer llwybrau wedi’u cau ers mis Medi 2018 (gan gynnwys Cwm Taf cyn Ebrill 2019) yn sgil problemau TG ar ôl diweddaru meddalwedd. Felly, nid yw’r rhifau a’r cymariaethau ar gyfer llwybrau wedi’u cau o ddatganiad Hydref 2018 ymlaen yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cynnwys Cwm Taf. Cyn y dyddiad hwn, 11,031 oedd y cyfartaledd 12 mis ar gyfer nifer y llwybrau wedi'u cau a gyflwynwyd gan Gwm Taf rhwng mis Gorffennaf 2017 a mis Gorffennaf 2018, sef y dyddiad pan gyflwynwyd y data ddiwethaf. Mae'r data ar gyfer Cwm Taf ar gyfer y misoedd blaenorol ar gael ar StatsCymru.

Rhoddodd Cwm Taf Morgannwg wybod i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mehefin 2019 eu bod yn credu fod problem ag adrodd ar rai rhestrau aros rhwng atgyfeirio a derbyn triniaeth. Fe wnaethant ofyn i Uned Gyflawni GIG Cymru gynnal adolygiad, ac arweiniodd hyn at ychwanegu cyfanswm o 1,783 o gleifion ychwanegol at y rhestr aros atgyfeirio i dderbyn triniaeth wrth gyhoeddi data Gorffennaf 2019 ym mis Hydref 2019. Hefyd, adolygodd yr Uned Gyflawni'r rhestr aros ar gyfer triniaethau diagnostig, a chanfod y dylai 1,288 o gleifion ychwanegol fod wedi cael eu nodi. Ychwanegwyd y cleifion hyn at y ffigurau swyddogol ar gyfer diwedd Gorffennaf 2019, yr adroddwyd arnynt ym mis Hydref 2019. Er nad oedd y cleifion yn cael eu cynnwys fel rhan o'r ystadegau swyddogol, roeddent yn cael eu hadrodd yn fewnol i'r bwrdd iechyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â byrddau iechyd eraill ac mae wedi cael gwybod bod adroddiadau'n cael eu darparu ar yr holl restrau aros yn unol â'r Canllawiau Atgyfeirio i dderbyn Triniaeth.

Mae triniaethau sy'n cael eu cynnal yn rhithiol yn cael eu cyfrif yr un fath â gweithgareddau wyneb yn wyneb, ac ers pandemig COVID-19, cynhaliwyd mwy o driniaethau ar-lein.

Gan fod pob apwyntiad claf allanol nad oedd yn frys wedi'i atal ym mis Mawrth er mwyn blaenoriaethu apwyntiadau brys, mae amseroedd aros ar gyfer cleifion a atgyfeirir am driniaeth wedi cynyddu'n sylweddol. Hefyd, er bod mwy o wasanaethau wedi ailddechrau ers hynny, mae mesurau rheoli ac atal heintiau ychwanegol wedi'u rhoi ar waith sydd wedi effeithio ar faint o driniaethau y gellir eu gwneud.

Ar hyn o bryd, mae clinigwyr yn adolygu'r holl gleifion ar y rhestrau aros ar wahanol gamau i ganfod blaenoriaethau clinigol. Er bod rhestrau aros atgyfeirio am driniaeth yn dal yn weithredol, nid yw'r byrddau iechyd lleol wedi gallu gwneud cymaint o waith dilysu ar ddata rhestrau aros gan fod eu hadnoddau yn gorfod canolbwyntio hefyd ar gefnogi'r ffyrdd newydd o weithio. Dylid bod yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ofalus wrth gymharu ystadegau perfformiad o fis Mawrth 2020 ymlaen â misoedd blaenorol oherwydd y newidiadau hyn.

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â chiwbiau StatsCymru pob mis.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae Cymru, Lloegr a'r Alban yn cyhoeddi amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth sy'n mesur llwybr cyflawn y claf o'r atgyfeiriad cychwynnol ee, gan feddyg teulu, hyd at gael ei ryddhau neu at gael triniaeth y cytunir arni, yn ogystal â chamau penodol yn yr amseroedd aros am driniaeth. Mae Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi ystadegau amseroedd aros ar gyfer cleifion mewnol, cleifion allanol a chamau diagnostig ar gyfer triniaeth sy'n mesur amseroedd aros ar gyfer y gwahanol gamau yn llwybr y claf, fel arfer yr amser aros penodol ar gyfer triniaeth i gleifion mewnol, triniaeth ddiagnostig neu driniaeth i gleifion allanol, neu ar gyfer gwasanaethau penodol fel awdioleg.

I sicrhau mwy o gysondeb ar draws data'r byrddau iechyd, mae'r holl godau triniaeth newydd wedi'u newid i'r hyn oedd yn cyfateb iddynt cyn mis Ebrill 2016. Mae hyn nawr wedi'i weithredu ar gyfer pob data atgyfeirio i dderbyn triniaeth hanesyddol. Caiff hyn ei roi ar waith nes y bydd pob bwrdd iechyd yn gallu darparu adroddiadau gan ddefnyddio'r codau newydd yn gyson. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr **Hysbysiad Newid Set Data (2014/08).**

O ran yr amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, er bod y cysyniadau yn debyg yng Nghymru, Lloegr a'r Alban o ran mesur yr amseroedd aros rhwng yr amser y bydd yr ysbyty yn cael yr atgyfeiriad a dechrau'r driniaeth, a'r mathau o lwybrau cleifion sy'n cael eu cynnwys, mae gwahaniaethau amlwg yn y rheolau unigol ynghylch mesur amseroedd aros. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd 'y cloc yn stopio neu'n oedi', gydag eithriadau, a'r arbenigeddau sy'n cael eu cynnwys.

**Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth: StatsCymru**

**Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth: Adroddiad ansawdd**

**Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth: Cyhoeddiadau blynyddol**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gwasanaethau canser

Mae cleifion canser yn cael eu trin yn ôl brys clinigol yn hytrach na chyfnod aros. Mae COVID-19 wedi effeithio ar sut y darperir gwasanaethau canser. Mae angen i fyrddau iechyd addasu drwy amrywiol ddulliau, gan gynnwys rhoi mesurau rheoli ac atal heintiau ychwanegol ar waith i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau diogel ac yn lleihau'r risg y bydd cleifion yn dal COVID-19. Mae hyn wedi golygu bod gwasanaethau wedi bod yn gweithredu ar lai o gapasiti.

Mae'n debyg hefyd fod dewis y cleifion eu hunain a'r cyfnod pan oedd rhai cleifion yn gwarchod wedi effeithio ar nifer y cleifion sy'n dechrau triniaeth o fewn yr amser targed.

Ar hyn o bryd, darperir ystadegau ar gyfer tri llwybr canser: yr un llwybr canser, y llwybr brys gydag amheuaeth o ganser, a'r llwybr nad yw'n frys gydag amheuaeth o ganser.

O fis Chwefror 2021 ymlaen, caiff data ei gyhoeddi ar gyfer yr un llwybr canser yn unig, gan gyfeirio at gyfnod adrodd mis Rhagfyr 2020. Ar hyn o bryd, byddwn yn diystyru'r targedau ar gyfer y llwybr brys ac ar y llwybr nad yw'n frys ac ni fydd data newydd yn cael ei gasglu na'i gyhoeddi ar gyfer y llwybrau hyn.

Bydd yr ystadegau ar gyfer pob llwybr yn cynnwys yr holl gleifion â chanser, waeth beth fo'u hardal breswyl, sydd wedi dechrau triniaeth yn y cyfnod adrodd. Nid ydynt yn cynnwys cleifion o Gymru â chanser sy'n cael triniaeth mewn ysbytai preifat neu ysbytai'r GIG y tu allan i Gymru.

Nid yw cleifion lle mae'r canser cynradd gwreiddiol yn dychwelyd yn cael eu cynnwys.

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â setiau data StatsCymru pob mis.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae gwledydd eraill y DU yn mesur amseroedd aros canser hefyd. Ond, mae'r allbynnau'n wahanol mewn gwahanol wledydd oherwydd eu bod wedi cael eu cynllunio i helpu i fonitro polisïau a ddatblygwyd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ar wahân gan bob llywodraeth. Byddai angen ymchwilio ymhellach i weld a yw'r gwahaniaethau diffiniol yn cael effaith arwyddocaol ar gymaroldeb y data.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar amseroedd aros canser ar gael yn yr **adroddiad ansawdd**.

Cyhoeddir dadansoddiad manwl o amseroedd aros canser hefyd mewn **datganiad ystadegol blynyddol**.

## Un llwybr canser

Cyhoeddwyd yr un llwybr canser **yn 2018 gan Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** ac mae'n darparu dull mwy tryloyw ac ystyrlon o fesur perfformiad gwasanaethau canser na'r ddau lwybr arall. Mae'n gwneud hyn drwy fesur yr amser ar y llwybr canser o'r cyfnod pan fydd amheuaeth o ganser yn hytrach na'r adeg y gwneir penderfyniad i roi triniaeth. Ar hyn o bryd mae dros hanner y cleifion canser ar y llwybr nad yw'n frys felly nid yw'r amser aros ar gyfer canser yn dechrau tan rhywfaint o'r ffordd i lawr y llwybr yn hytrach nag ar y dechrau'n deg.

Fel y nodwyd mewn datganiadau ystadegol blaenorol, y nod ers peth amser bellach yw disodli'r llwybrau brys a'r llwybrau nad ydynt yn frys gydag un llwybr canser. I gael rhagor o wybodaeth am y llwybr, trowch at yr **Hysbysiad Newid Set Data** a'r **dogfennau allweddol**.

Sylwch mai dim ond cleifion y nodwyd nad oedd ganddynt ganser yn ddiweddarach sydd wedi'u cynnwys yn nata Powys ar gyfer y rhai sy'n dod ar y llwybr.

Fel y **cyhoeddwyd ar 18 Tachwedd 2020**, y targed newydd ar gyfer yr un llwybr canser yw: 75% o gleifion yn dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod (heb ohiriadau) o gael eu hamau o ganser am y tro cyntaf. Daw'r targed hwn i rym o 1 Rhagfyr 2020 ymlaen a bydd yn parhau tan fis Mawrth 2022, pan ddisgwylir i'r ganran darged gynyddu.

Ceir rhagor o wybodaeth am y newidiadau i ddata canser yn y dyfodol yn **Adran**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

4.

Cyhoeddir data ar gyfer yr un llwybr canser ar **StatsCymru**.

## Llwybrau brys a llwybrau nad ydynt yn frys ar gyfer canser

Cyn cyflwyno'r un llwybr canser, roedd cleifion sy'n derbyn gwasanaethau canser yn cael eu categoreiddio'n ddau grŵp:

Y rheini sy'n cael eu hatgyfeirio drwy'r llwybr brys gydag amheuaeth o ganser:

- Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio o ofal sylfaenol (ee, gan feddyg teulu) i ysbyty fel achosion brys ag amheuaeth o ganser, a bod hyn wedyn yn cael ei gadarnhau fel achos brys gan yr ymgynghorydd meddygol neu gan aelod dynodedig o'r Tîm Amlddisgyblaethol.

Y rheini nad ydynt yn cael eu hatgyfeirio drwy'r llwybr brys gydag amheuaeth o ganser:

- Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cleifion sydd â chanser (ni waeth beth yw eu llwybr atgyfeirio), nad ydynt wedi'u cynnwys yn barod fel cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio fel achos brys ag amheuaeth o ganser.

Mae'r amseroedd aros ar gyfer y ddau lwybr hyn yn cynnwys **gohiriadau**.

Nid yw Powys ar hyn o bryd yn cyflwyno data ar gleifion â chanser a atgyfeiriwyd drwy'r llwybr brys neu'r llwybr heb fod yn frys mewn achosion gydag amheuaeth o ganser gan nad yw Powys yn darparu gwasanaethau acíwt. Caiff trigolion o Bowys eu cynnwys yn y data a gyflwynwyd gan fyrddau iechyd lleol eraill.

Mae data sy'n ymwneud â nifer y cleifion sydd newydd gael diagnosis sy'n dechrau eu triniaeth a nifer yr atgyfeiriadau a wneir yn ôl llwybr triniaeth canser, safle canser a bwrdd iechyd lleol ar gael yn fisol ar StatsCymru.

Dyma'r targedau sy'n gysylltiedig â'r llwybrau hyn:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Llwybr brys gydag amheuaeth o ganser: Ni ddylai 95% o gleifion aros mwy na 62 diwrnod am driniaeth. Mae cleifion sydd ar y llwybr hwn wedi cael eu cyfeirio ar ôl cael gwybod yr amheuir bod canser arnynt ee gan feddyg teulu.

Nid drwy'r llwybr brys gydag amheuaeth o ganser: Ni ddylai 98% o gleifion aros mwy na 31 diwrnod am driniaeth. Mae cleifion ar y llwybr hwn wedi cael eu cyfeirio yn dilyn diagnosis damweiniol ee yn ystod triniaeth arall.

Mae'r rhain yn mesur yr amser rhwng y diagnosis a'r driniaeth.

Mae data ar gyfer y llwybrau brys ac nid drwy'r llwybrau brys yr amheuir bod canser arnynt yn cael eu cyhoeddi ar **StatsCymru**.

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol Plant a'r Glasoed (sCAMHS)

Yn flaenorol, roedd pob bwrdd iechyd yn casglu data sCAMHS drwy ffurflen casglu data ganolog (PP01W), ond yn ddiweddar fe'i disodlwyd gan broses casglu data'n uniongyrchol o fyrddau iechyd drwy **wybodaeth reoli**. Ateb interim yw hwn oherwydd nodwyd nad oedd y data a gasglwyd drwy'r ffurflen PP01W yn cynnwys cyfeiriadau o bob ffynhonnell ac nad oedd byrddau iechyd yn defnyddio diffiniadau cyson. Mae'r wybodaeth reoli hon wedi cael ei hôl-ddyddio i fis Ebrill 2018 er mwyn darparu cyfres amser fwy cyson. Nid yw'r wybodaeth reoli hon wedi cael ei dilysu drwy'r broses safonau data, ond mae byrddau iechyd wedi sicrhau bod y data'n adlewyrchu'n gywir nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth gan dimau arbenigol CAMHS.

Dim ond o fis Mehefin 2020 ymlaen y mae data ar gael ar gyfer bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr. Darperir nodyn llawn ar StatsCymru yn egluro sut mae data ar gyfer y bwrdd iechyd hwn yn wahanol i ddata eraill.

Defnyddir gwybodaeth reoli i gasglu a chyhoeddi data ar gyfer sCAMHS o hyd yn y tymor byr, cyn datblygu proses ganolog newydd o gasglu data. Yna, bwriedir cyhoeddi data sCAMHS ochr yn ochr â **data iechyd meddwl** ar ôl sefydlu'r broses newydd. Y targed ar gyfer cyflawni hyn yw gwanwyn 2021.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol Plant a'r Glasoed (sCAMHS): **StatsCymru**

## Ffynonellau

- Mae data ymateb ambiwlansys yn cael eu darparu gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.
- Mae data amseroedd aros canser yn cael eu darparu gan y byrddau iechyd lleol yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.
- Mae'r holl ddata arall sydd wedi'u crynhoi yma yn cael eu casglu oddi wrth fyrddau iechyd lleol gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae manylion llawn ar gael yn yr Adroddiadau Ansawdd ar gyfer pob maes gwasanaeth.

## Yr amserlen

Wrth i ni gyhoeddi ein datganiadau misol ar berfformiad a gweithgareddau y GIG ar yr un diwrnod, bydd y defnyddwyr yn cael darlun mwy cyflawn ac integredig o weithgareddau, gan roi golwg gyffredinol fwy cydlynol ar y GIG yng Nghymru.

Nid oes gan bob set ddata yr un amserlenni ar gyfer prosesu. I sicrhau bod y data ar gael cyn gynted ag y bo modd, rydym yn cyhoeddi data gofal heb ei drefnu ar gyfer mis Hydref, dyweder, gyda'r data gofal wedi'i gynllunio ar gyfer mis Medi.

## Data

Adnodd ar-lein - mae adnodd rhyngweithiol ar-lein wedi'i ddatblygu, ac mae ganddo dair rhan:

1. Galw/Gweithgarwch: ee presenoldeb mewn adrannau achosion brys, galwadau ambiwlansys, atgyfeiriadau
2. Perfformiad: ee perfformiad yn erbyn targedau adrannau achosion brys, amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ac ati
3. Cyd-destun: ee canolrif amser mewn adrannau achosion brys, canolrif

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

amseroedd ymateb ambiwlansys, canolrif amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth

Mae pob siart yn dangos y cyfnod diweddaraf o bum mlynedd, os oes data wedi'i gasglu mewn ffordd y gellir ei gymharu'n deg dros y cyfnod hwnnw. Sylwch mai'r eithriad i hyn yw'r siartiau perfformiad a gweithgarwch ambiwlansys, lle mae'n ymddangos bod diweddaru arferion delio â galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at newid yn nifer y digwyddiadau coch. Felly, nid yw'n bosibl cymharu niferoedd digwyddiadau coch cyn hyn.

Mae modd gweld, defnyddio neu lwytho rhagor o setiau data manwl i lawr drwy ein API data agored ar **StatsCymru**.

Cyfrifir newidiadau pwynt canran gan ddefnyddio ffigurau heb eu talgrynnu.

## Gwybodaeth gyd-destunol

Mae'r siartiau yn yr adnodd ar-lein yn darparu gwybodaeth ychwanegol am weithgareddau sy'n ategu'r wybodaeth am berfformiad y GIG a ddangosir uchod.

Mae rhai siartiau'n cynnwys amseroedd canolrif a chymedr. Er enghraifft, mewn perthynas ag amseroedd ymateb ambiwlansys:

- Yr amser ymateb **canolrif** yw'r amser canol pan fydd yr holl ymatebion i argyfwng yn cael eu rhoi mewn trefn o'r cyflymaf i'r arafaf, felly bydd hanner yr holl ymatebion i argyfwng yn cyrraedd o fewn yr amser hwn. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio yn lle'r cymedr fel arfer gan ei fod yn llai tebygol na'r cymedr o arwain at werthoedd eithaf.
- Yr amser ymateb **cymedr** yw cyfanswm yr amser ar gyfer pob ymateb i argyfwng wedi'i rannu â nifer yr ymatebion i argyfwng. Mae'r ambiwlansys hynny sy'n cymryd mwy o amser i gyrraedd eu cyrchfan yn fwy tebygol o effeithio ar y cymedr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Adolygiadau

Cyflwynir gwybodaeth yn ymwneud â diwygiadau yn y ‘Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn’ ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â setiau data StatsCymru bob mis.

## Perthnasedd

### Beth yw'r ffyrdd posibl o ddefnyddio'r ystadegau hyn?

Bydd yr ystadegau hyn yn cael eu defnyddio mewn amryw o ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau:

- cyngor i weinidogion
- asesu, rheoli a monitro perfformiad GIG Cymru yn erbyn targedau
- llywio prosiectau gwella gwasanaethau ar gyfer meysydd ffocws a chyfleoedd i wella ansawdd
- gan fyrddau iechyd lleol y GIG, i'w meincnodi eu hunain yn erbyn byrddau iechyd lleol eraill
- cyfrannu at erthyglau newyddion ar amseroedd aros
- helpu i bennu'r gwasanaeth y gall y cyhoedd ei gael gan GIG Cymru

### Pwy yw prif ddefnyddwyr posibl y data hyn?

Bydd yr ystadegau hyn yn ddefnyddiol o fewn Llywodraeth Cymru a’r tu hwnt iddi. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr posibl:

- Gweinidogion a'u cynghorwyr
- Aelodau Senedd Cymru a Gwasanaeth Ymchwil Aelodau Senedd Cymru
- byrddau iechyd lleol
- awdurdodau lleol
- Yr adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru a meysydd eraill o Lywodraeth Cymru
- Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- y gymuned ymchwil
- myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion
- dinasyddion unigol a chwmnïau preifat
- y cyfryngau

### Gallai'r ystadegau fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer llywodraethau eraill y DU

Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Llywodraeth yr Alban

Adran Iechyd Lloegr

## Cymaroldeb

Mae pedair gwlad y DU yn cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth o ystadegau gweithgareddau a pherfformiad y GIG. Nid oes modd cymharu'r ystadegau a gyhoeddir yn llwyr oherwydd: eu bod wedi cael eu cynllunio i fonitro targedau a ddatblygwyd ar wahân ym mhob gwlad; bod y ddarpariaeth a'r drefn categoreiddio gwasanaethau gofal heb ei drefnu yn amrywio ar draws y DU. Mae ystadegwyr ym mhob un o bedair gwlad y DU wedi cydweithio fel rhan o Grŵp Amseroedd Aros Cymharol y DU. Nod y grŵp oedd edrych ar draws yr ystadegau a gyhoeddwyd am iechyd, yn benodol amseroedd aros, a llunio cymhariaeth o (i) beth sy'n cael ei fesur ym mhob gwlad, (ii) sut mae'r ystadegau'n debyg a (iii) ymhle mae'r gwahaniaethau allweddol. Mae'r wybodaeth honno ar gael ar **wefan Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth**. Mae gwybodaeth am ambiwlansys ar gael yma:

**Gwasanaethau ambiwlans yn Lloegr**

**Gwasanaethau ambiwlans yn yr Alban**

**Gwasanaethau ambiwlans yng Ngogledd Iwerddon**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Statws Ystadegau Gwladol

Ac eithrio ystadegau'r un llwybr canser, mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wedi dynodi bod yr holl ystadegau eraill a gyflwynir yn y datganiad hwn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ein hystadegau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus, a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau y cydymffurfir â'r safonau hyn.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn dechrau pryderu ynghylch p'un a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Mae "Amser aros canser GIG Cymru", "Gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru", "Amser a dreuliwyd yn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys GIG Cymru", "Amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth GIG Cymru", "Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi GIG Cymru" ac "Oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru" yn Ystadegau Gwladol.

Cadarnhawyd statws parhaus yr ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol yn 2011 ar ôl i'r **Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wirio eu bod yn cydymffurfio**. Cynhaliwyd yr **asesiad llawn diweddaraf o'r ystadegau hyn yn erbyn y Cod Ymarfer** yn 2011.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ystadegau arbrofol

Ystadegau Arbrofol yw'r ystadegau sy'n gysylltiedig â'r un llwybr canser. Maent yn cael eu defnyddio i roi gwybod i ddefnyddwyr am y data a'r ffaith fod yr ystadegau yr adroddir arnynt yn dal i gael eu datblygu ac y gallai fod problemau o ran ansawdd y data. Fodd bynnag, mae'r ystadegau'n dal i fod o werth ar yr amod fod defnyddwyr yn eu hystyried yng nghyd-destun gwybodaeth am ansawdd y data sydd ar gael. Wrth i'r set ddata aeddfedu, bydd cwmpas ac ansawdd y data yr adroddir arnynt yn gwella, a gellir defnyddio'r data ar gyfer amrywiaeth eang o resymau buddiol.

Mae'r rhain yn ystadegau swyddogol sy'n cael eu cyhoeddi er mwyn cynnwys defnyddwyr a rhanddeiliaid yn y broses o'u datblygu ac fel ffordd o sicrhau ansawdd yn gynnar yn y broses.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â holl agweddau Cod Ymarfer Ystadegau Swyddogol. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

**Rhagor o wybodaeth am ddefnyddio ystadegau arbrofol**.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru, sef: Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol: (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Gallai'r ystadegau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif i gefnogi'r dangosyddion cenedlaethol a gallent gael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Diweddariad nesaf

18 Chwefror 2021

## Hoffem gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gellir anfon yr adborth drwy e-bost i'r cyfeiriad hwn **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**.

# 6. Manylion cyswllt

Ystadegydd: Rhys Strafford
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

SFR 15/2020

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG: Tachwedd a Ragfyr 2020** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-tachwedd-ragfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.